# Y Dinesydd

Chwefror 2013 Rhif 374 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

## *Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr, a diolch am eich cefnogaeth. Gobeithio cewch chi flas ar Y Dinesydd yn y flwyddyn sydd i ddod.*

## Cefnogaeth i Bapurau Bro



*Leighton Andrews*

Mae Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg, wedi mynegi cefnogaeth frwd i'r Papurau Bro, gan ddweud bod eu cyfraniad i fywyd cymunedol, a thrwy hynny i'r Gymraeg, yn bwysig iawn. (Wel, dyna'n union beth yw amcan swyddogol Y Dinesydd.) Ac i ddangos ei fod o ddifri, mae'r Gweinidog wedi sicrhau bod arian sylweddol ar gael ar gyfer helpu i'w cynnal a'u datblygu yn ystod y tair blynedd nesaf. Wrth gwrs, mae yna amodau – ond amodau, neu dargedau, yw'r rhain y dylai pob Papur Bro fod yn anelu atynt beth bynnag. Felly gadewch i ni weld beth yw sefyllfa'r Dinesydd. *(Gweler sylwadau'r Golygydd ar dudalen 3.)*

## Cefnogi Tŷ Hapus



*[O'r chwith i'r dde] Rhys Davies, Iris Cobbe (Ysg.), Jayne Lewis, Justine a Coco Pickering, Ceri Jones (Cadeirydd), Moyra Owen (Trysorydd), David Pickering, Rhodri Jones ac Elinor Elias Jones.*

Nos Wener Tachwedd 23ain, cynhaliodd Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys noson arbennig iawn yng nghwmni côr Bechgyn Bro Taf, dan arweiniad Owen Saer, yn Neuadd y Pentref. Noson elusennol flynyddol y Gymdeithas oedd hon a Tŷ Hapus, canolfan yn Y Barri i bobol ifanc sy'n dioddef o *dementia*, oedd dewis ein Cadeirydd, Ceri Jones.

Sefydlwyd canolfan Tŷ Hapus gan Justine Pickering pan ganfuwyd fod ei mam yn dioddef o'r clefyd a hithau ond yn ei phumdegau. Aeth ati i godi arian ac ymwybyddiaeth o'r clefyd creulon yma.

Yn dilyn gwasanaeth Nadolig y Gymdeithas yn Eglwys Sant Pedr ar yr 17eg Rhagfyr, pleser o'r mwyaf oedd trosglwyddo siec o £2,200 i Justine a David Pickering a'u merch fach, Coco. Llongyfarchwyd y teulu bach yma am ei ymroddiad tuag at Tŷ Hapus a rhoddwyd ein dymuniadau da iddyn nhw ac i'r ganolfan yn y dyfodol.

## Clwb y Diwc

Yn rhifyn Rhagfyr y Dinesydd fe soniwyd am y siom ddaeth i ran selogion Clwb y Diwc pan gaeodd y dafarn ei drysau yn ddisymwth ym mis Hydref. Mae'n dda cael adrodd bod y Duke of Clarence bellach dan reolaeth newydd ac mae'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

Mae'r rheolwr newydd, Sarah McCreadie, wedi bod yno ers dechrau'r flwyddyn ac yn amlwg yn gefnogol i'r Gymraeg gyda'i phlant yn mynd i ysgolion Tan yr Eos a Phlasmawr. Mae hi wedi ymrwymo i barhau gyda digwyddiadau Clwb y Diwc, sydd wedi bod yn cynnal nosweithiau cymdeithasol misol yn y dafarn ers pum mlynedd bellach. Rydyn ni hefyd yn croesawu newydd-ddyfodiaid i'r dafarn, sef Clwb Rygbi Cymry Caerdydd (CRCC). Symudon nhw i mewn ddechrau Ionawr ac maen nhw wedi ymgartrefu'n dda. (Gweler stori CRCC.) *[Parhad ar dudalen 2.]*



*Y Duke of Clarence yn Clive Road, Treganna – man cyfarfod Clwb y Diwc, a chartref newydd CRCC*

## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
**Bryan James**

Golygyddion y rhifyn nesaf:
**Gwilym ac Eirian Dafydd**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Mawrth erbyn 27 Chwefror i:
'Hengoed', 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7EJ
Ffôn: 02920 657108
ebost: eirian.dafydd@ntlworld.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# HANES Y GÂN

*Oer yw'r gŵr sy'n methu caru*
*Hen fynyddoedd annwyl Cymru.*

Ie, dyna'r geiriau a gyfansoddwyd yn Gymraeg i fynd gyda'r dôn hynafol 'Nos Galan'. Erbyn hyn mae'r dôn yn cael ei hadnabod fel 'Deck the Halls' ac yn cael ei chanu adeg y Nadolig. Trwy hap a damwain cafodd Cwmni Dawns Werin Caerdydd y fraint o gyfrannu at raglen *The One Show* ym mis Rhagfyr pan fuodd Gyles Brandreth (GB) yn olrhain hanes y gân. Er i'r Cwmni ddawnsio ychydig cyn canu'r gân ni ddangoswyd y dawnsio ar y rhaglen. Ta waeth am hynny cafwyd tipyn o hwyl yng nghwmni GB, yn canu'r gân yn Gymraeg ac yntau'n ymateb gyda'i 'eiriau ei hun' sef -

*T'is the time for Christmas parties,*
*Forget the yoga and pilates*
*Here I am, give me a smacker*
*You're my idea of a Christmas cracker.*

Roedd yn amlwg bod GB wedi cymryd tipyn o ffansi at Betsan ond trwy lwc roedd Howard yno'n canu hefyd. A beth ddywedwch chi yw cysylltiad GB a Chymru? Wel mae ei wraig o Abertawe. Darlledwyd y rhaglen nos Wener 14 Rhagfyr a chafwyd tipyn o ymateb iddi.

Tua'r un adeg ag y buom yn ffilmio ar gyfer *The One Show* bu'r Cwmni'n brysur dros dair noson yn cyflwyno rhai o draddodiadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i'r cyhoedd yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Er gwaetha'r tywydd gwlyb, yn arbennig y nos Iau, llwyddwyd i ddenu torf dda ar gyfer y Fari Lwyd, Hela'r Dryw a Chanu Dan Bared, gan ychwanegu dawns neu ddwy rhwng y perfformiadau. Mae defod Hela'r Dryw gyda'r ffaglau yng nghanol tywyllwch caeau'r Amgueddfa yn olygfa drawiadol iawn.

Ymhen wythnos dyma'r Cwmni unwaith eto yn perfformio'r Fari Lwyd, Hela'r Dryw a Chanu Dan Bared yng Nghwrt Insole, tŷ hynafol yn Llandaf ac yn cael y croeso arferol gan drigolion y pentref.

Yn anffodus methwyd â chyrraedd tafarn yr Hen Dŷ yn Llangynwyd ddydd Calan, ond llwyddodd criw bychan fynd â'r Fari allan i'r Fro dros adeg yr Hen Galan a chael croeso mawr gan ei ffrindiau yn y Bontfaen.



Cadw cwmni i Gyles Brandreth ar *The One Show* yn Sain Ffagan

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT

## Clwb y Diwc - *parhad*

Mae pwyllgor Clwb y Diwc yn falch i gyhoeddi bod yna galendr llawn o ddigwyddiadau wedi'i drefnu hyd at yr haf. Cadwch lygad ar Galendr y Dinesydd. Mae holl fanylion y digwyddiadau ar ein tudalen Facebook ac fe allwch chi ddilyn @ClwbyDiwc ar Trydar.

Y llynedd roedd tocynnau bron pob un o'r gigs wedi gwerthu i gyd cyn y noson felly cofiwch alw mewn i Caban i brynu tocyn o flaen llaw i fod yn siwr o'ch lle.

# DYFODOL Y DINESYDD

## Sylwadau'r Golygydd

O dderbyn grant y Llywodraeth i gynnal a datblygu'r Dinesydd, rhaid i ni anelu at rai targedau penodol. Y prif nod yw cynyddu gwerthiant y Dinesydd o'r 600-700 presennol i 1,000, a hynny gynted â phosib. I gyrraedd y nod hwnnw mae'n rhaid ystyried nifer o ffactorau.

1. **Ydy diwyg a chynnwys y Dinesydd yn ddigon deniadol a diddorol?**

   **Oes digon o amrywiaeth? Oes modd ehangu'r gynulleidfa?**

   - Mae bwrlwm o fywyd Cymraeg diddorol yng Nghaerdydd a'r Fro – a d'yn ni ddim yn adlewyrchu ei hanner e! Mae digon o straeon i lanw 20 tudalen bob tro. Mae cael pedair tudalen mewn lliw wedi bod yn welliant – a byddai wyth yn well byth! Ond, a allwn ni fforddio 20 tudalen bob tro ac wyth tudalen mewn lliw? Ddim heb ddatblygiadau eraill.

2. **Mae grant y Llywodraeth yn £1,700 am eleni (10 rhifyn). Mae un rhifyn 16 tudalen o'r Dinesydd, 4 tudalen â lliw, yn costi, ar gyfartaledd, rhyw £850. Felly sut mae symud ymlaen?**

   - Codi'r pris gwerthu / tanysgrifio? Na. Gwerthu mwy? Yn bendant!
   - Rhoddion? Mae nifer o gymdeithasau a sefydliadau, ac unigolion, eisoes yn anfon cyfraniadau hael. Oni bai am hyn .....! Felly diolch yn fawr.
   - Hysbysebion? Ie, mae hon yn ffynhonnell werthfawr. Mewn ymdrech i ddenu rhagor, mae'r pris wedi ei ostwng yn ddiweddar – felly rhwng hyn a chynyddu'r cylchrediad, bydd yn fwy o werth-am-arian yn y dyfodol.

3. **Un o amodau'r grant yw ein bod yn cynyddu ein defnydd o dechnoleg gwybodaeth.**

   - Mae gyda ni wefan yn barod (www.dinesydd.com) ac mae llawer o hanesion yn ein cyrraedd trwy'r cyfrwng hwn.
   - Mae fersiynau pdf o'r Dinesydd yn cael eu rhoi ar y we – ond dim ond hyd at bum mis yn ôl. (Ofn y byddai pobol yn peidio â'i brynu pe bae e ar gael am ddim ar y we!!) Efallai bod angen ailystyried hyn.
   - Mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys yn ein cyrraedd trwy ebost.
   - Mae anogaeth gref i'r holl Bapurau Bro ddatblygu i gyfeiriad 'newyddiaduraeth gymunedol leol iawn' – yr hyn a elwir yn y jargon Saesneg yn *'hyper-local community journalism'* – gan ddefnyddio cyfryngau fel Facebook a Twitter ac ati. (Mae gan GR ddaliadau go gryf ar hyn yn ei golofn!) Wel, dyma'r byd sydd ohoni, er gwell neu er gwaeth, ac os ydyn ni am gysylltu â'r genhedlaeth ifanc, rhaid symud gyda'r oes. Mwy am hyn yn y rhifyn nesaf, (a gweler y datganiad isod am 'gronfa ddigidol'), ond datblygiad ochr yn ochr â'r Papurau Bro presennol fyddai hyn, NID rhywbeth i'w disodli.

**Dyna ddigon am y tro, ond allech chi ein helpu i gyrraedd y nod? O fewn y rhifyn hwn mae ffurflenni tanysgrifio – fyddech chi'n fodlon eu defnyddio i annog cyfeillion i brynu'r Dinesydd yn y flwyddyn sy'n dechrau ym mis Ebrill?**

**Ac os ydych chi neu'r gymdeithas 'ych chi'n perthyn iddi yn meddwl cefnogi rhyw achos da eleni, a fyddech mor garedig ag ystyried *Y Dinesydd*? Diolch.**

***Gol.***

### Cyhoeddi Cronfa Ddigidol Newydd

Mae'r Gweinidog Addysg wedi cadarnhau bod cronfa o £250,000 ar gael bob blwyddyn i annog datblygiadau digidol trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe allai hynny helpu papurau bro i gynnig gwasanaethau newydd ar y We a chynnig hyfforddiant mewn newyddiaduraeth leol iawn ar-lein.

Fe ddaeth cyhoeddiad Leighton Andrews mewn cynhadledd ryngwladol yng Nghaerdydd i hyrwyddo newyddiaduraeth gymunedol ar-lein – un o'r datblygiadau mawr yn y diwydiant ar draws y byd.

"Mae angen i ni adeiladu ar fodel y papurau bro," meddai, wrth awgrymu hefyd y gallai newyddiaduraeth gymunedol fod yn rhan o gwrs y BACC Cymreig ar ei newydd wedd ac y gallai hynny greu cronfa newydd o gyfranwyr i'r papurau bro.

## Côr Plant Caerdydd

Mae Menter Caerdydd wedi dewis 80 o blant i fod yn rhan o Gôr Plant Caerdydd - côr Cymraeg newydd a ddechreuodd ym mis Ionawr eleni. Cynhaliwyd clyweliadau agored i dros 1000 o blant mewn 12 o ysgolion yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr 2012 cyn dewis yr 80 terfynol ar gyfer y côr. Bydd y côr, dan arweiniad Mrs Marian Evans o Radur, cyn brifathrawes Ysgol Gynradd Llantrisant ac un o arweinyddion Côr Y Mochyn Du, yn cynnwys plant o flynyddoedd 5 a 6 o bob ysgol gynradd Gymraeg yn y ddinas. Bydd y côr yn cwrdd yn festri Capel Salem, Treganna, bob nos Lun rhwng 4.30pm a 5.30pm. Am fwy o wybodaeth, neu os hoffech drefnu perfformiad gan Gôr Plant Caerdydd, peidiwch oedi cysylltu â leanne@mentercaerdydd.org neu ffoniwch 2068 9888.

## Rhaglen Hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Menter Caerdydd, mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, wedi cydlynu rhaglen o gyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar gyfer unigolion sy'n gweithio, sy'n astudio neu'n gobeithio dilyn gyrfaoedd ym meysydd gofal plant, addysg, chwarae neu waith ieuenctid. Mae nifer o'r cyrsiau'n cynning achrediad Lefel 2, neu dystysgrif/gymhwyster gan Gyrff Cenedlaethol a bydd y ffioedd cofrestru yn amrwyio o £30 i £80. Mae'r cyrsiau'n cynnwys Hylendid Bwyd, Amddiffyn Plant, Iechyd a Diogelwch, Hyrwyddo Ymddygiad Positif, Cymorth Cyntaf, Gweithio gydag Anableddau, Dyfarnu Rygbi URC – a mwy, ac ar gael i bawb. Mae'r rhaglen lawn ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Fenter – mentercaerdydd.org. Am fwy o wybodaeth neu i dderbyn y wybodaeth yn electronig cysylltwch ag angharad@mentercaerdydd.org.

## Arddangosfa 'Byw yn y Ddinas' – Stori Caerdydd

Os hoffech weld arddangosfa o fywyd Cymraeg y ddinas ddoe a heddiw, beth am alw mewn i Stori Caerdydd, Yr Hen Lyfrgell ar yr Aes i weld arddangosfa newydd Menter Caerdydd 'Byw yn y Ddinas'. Bydd yr arddangosfa'n agor ar Fawrth y 1af ac yn parhau yn yr Hen Lyfrgell am dri mis. Bydd yr arddangosfa rhyngweithiol yn cynnwys lluniau, ystadegau, hanes y Gymraeg yn y gymuned, gwaith Menter Caerdydd a Tafwyl, twf addysg yn y ddinas, 30 mlynedd ers sefydlu Clwb Ifor Bach, clybiau chwaraeon, ffilmiau byrion a llawer mwy. Mae bwriad i gynnal gweithdai a digwyddiadau i gydfynd â'r arddangosfa a bydd y wybodaeth i gyd i'w chael ar wefan Menter Caerdyd a byddwn yn siwr o gynnwys y wybodaeth yma ar dudalennau'r Dinesydd. Os am fwy o wybodaeth am arddanfosfa Stori Caerdydd 'Byw yn y Ddinas' cysylltwch â llinoswilliams@mentercaerdydd.org

## Twitter, Facebook a You Tube

Cofiwch bod gan y Fenter gyfrifon Twitter, Facebook a You Tube, a rydym yn diweddaru'r tudalennau'n aml, felly mae'n ffordd hawdd i glywed am yr holl newyddion diweddaraf.

## Cwis y Mochyn Du

Bydd cwis yn cael ei gynnal nos Sul, Chwefror 24 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb! Cofiwch bod y cwis ar nos Sul olaf pob mis!

## Dwynwen-o-gram Santes Dwynwen

Llongyfarchiadau mawr i enillwyr ein Dwynwen-o-grams eleni – Mr Mike Hayes, Rekha Puri ac Anwen Jones! Roedd pawb wrth eu bodd gyda'r blodau a'r siocledi a chael cwtsh gyda Dwynwen!



*Anwen Jones yn derbyn un o 'Dwynwen-o-Grams' Menter Caerdydd yn Ysgol Gyfun y Barri!*

## Diolch yn fawr Awel

Hoffwn ddymuno pob hwyl i Awel Davies sydd yn ffarwelio â ni gyd yn y Fenter ar ddiwedd mis Chwefror wrth iddi ddechrau swydd newydd gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Ers dechrau gyda'r Fenter, mae Awel wedi datblygu rhaglen gynhwysfawr a phoblogaidd o gyrsiau a dosbarthiadau i oedolion gyda'r dydd a'r nos, trefnu gweithgareddau gwyliau i blant cynradd a gofalu am gwis misol y Mochyn Du! Pob lwc i ti Awel a chofia gadw mewn cysylltiad!

# Colofn G.R.

Y tro diwethaf i mi sgrifennu hyn o golofn on i'n eistedd yng nghegin fy ffrindiau yn y Gaiman. Ond bellach dwy'i nôl yng Nghaerdydd ers 29 Tachwedd gan lanio ym Maes Awyr Caerdydd o Amsterdam ar ôl dim ond awr o siwrnai. Cymerodd lawer mwy o amser na hynny i mi gyrraedd adre o'r maes awyr! Oedd hi'n dipyn o sioc i'r sustem ar ôl pum wythnos yn haul ac awyr las Patagonia gan ei bod yn oer a rhewllyd yng Nghymru ar y pryd!

Cyn troi am adre bues i mewn Eisteddfod arall ym Mhatagonia, a'r tro hwn yn nhre Trevelin yn yr Andes. Yn ystod yr eisteddfod honno anrhydeddwyd nid un bardd ond tri, ac i gyd o fewn un seremoni! Cafodd un dlws, un arall goron ac un arall gadair! Mae Cwmni Teithio Tango yn Aberystwyth yn trefnu ymweliadau â Phatagonia a daeth criw o deithwyr y Cwmni i'r eisteddfod ac er fy mawr syndod gwnes i gyfarfod ag un o Gymry Llundain on i heb weld ers tua hanner can mlynedd!

Mae'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd wedi hen basio erbyn hyn a bywyd wedi prysuro unwaith eto wedi'r egwyl bleserus dros yr Ŵyl. Cynhyrfwyd y dyfroedd wrth gyhoeddi rhai o ganlyniadau'r cyfrifiad diwethaf am hynt y Gymraeg, a gwelwyd mai Gwynedd a Môn ydy cadarnleoedd olaf y Gymraeg tra bod siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin a Sir Aberteifi yn y lleiafrif am y tro cyntaf erioed. Er, oedd cynnydd bychan yn nifer y siaradwyr yng Nghaerdydd a Sir Fynwy.

Ond yr hyn sy'n peri llawer o bryder i mi ydy'r ffaith fod llawer o'n plant a phobl ifanc er yn medru'r iaith – diolch i addysg Cyfrwng Cymraeg – yn dewis cyfathrebu â'i gilydd yn y Saesneg bellach. Mae Cymreictod wedi mynd yn rhywbeth arwynebol i lawer a chlywais i hanesyn yn ddiweddar am athrawes ifanc mewn ysgol Gymraeg yn y De Ddwyrain yn holi yn stafell yr athrawon pwy oedd Dafydd Iwan!

Tra'n sôn am Dafydd Iwan yn ddiweddar buodd o'n edliw wrthym ni drigolion Caerdydd am ein diffyg cefnogaeth i brynu llyfrau a chylchgronau Cymraeg, ac wrth feddwl am gylchrediad *Y Dinesydd* ymddengys ei fod yn llygad ei le! Erbyn hyn mae'n well gan y to iau, a'r to hŷn i raddau helaeth, dreulio eu hamser o flaen eu sgriniau cyfrifiadurol na chodi llyfr neu gylchgrawn boed yn Saesneg neu yn Gymraeg!

Oes rhywbeth i godi ein calonnau wrth wynebu 2013? Wel oes siwr iawn os ydych yn cefnogi timau pêl-droed Caerdydd ac Abertawe, a da oedd clywed bod Eisteddfod Bro Morgannwg wedi gwneud elw a bod 'na ymgyrch ar waith i sefydlu Canolfan Gymraeg yn y Barri tebyg i un Tŷ Tawe yn Abertawe a'r Saith Seren yn Wrecsam. Hefyd bwriedir agor Ysgol Gymraeg yn nhre Dinbych y Pysgod. Ydyn, 'dan ni'n dal yma o hyd er gwaethaf pawb a phopeth! Torchwn ein llewys ac ymlaen bo'r nod yn 2013. Diolch i ddarllenwyr ffyddlon *Y Dinesydd* yn 2012 gan obeithio am gynnydd yn nifer ein darllenwyr yn 2013!

## *Cydymdeimlwn â*

- theulu'r diweddar Tudor Noakes a fu farw yn ysbyty Llandochau ar 5 Rhagfyr. Bu'r angladd yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi ar 19 Rhagfyr ac yn dilyn yn Amlosgfa Parc Gwyn yn Arberth.
- teulu'r diweddar Gwynfryn Pritchard, Rhiwbeina, a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 4 Rhagfyr. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- teulu'r diweddar Sylvia Harries, Trecelyn, a fu farw yng Nghartref y Regency ym Mhont-y-pŵl ar 30 Tachwedd. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei bywyd yng Nghapel y Tabernacl, Trecelyn, wedi gwasanaeth yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 14 Rhagfyr.
- teulu'r diweddar Gwyneth Morus Jones, Llandegfan, Ynys Môn, a fu farw'n dawel yn ei chartref yn 68 oed ar 15 Rhagfyr. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei bywyd yng Nghapel y Tabernacl, Porthaethwy, ar 21 Rhagfyr. Bu'n Llywydd Merched y Wawr ac yn Llywydd y Mudiad Ysgolion Meithrin.
- teulu'r diweddar Carrie Thomas a fu farw'n dawel yn Ysbyty'r Brifysgol ar 14 Rhagfyr. Bu gwasanaeth preifat yn Amlosgfa Bro Morgannwg, Y Barri, ar 21 Rhagfyr ac yna cafwyd gwasanaeth coffa yng Nghapel y Tabernacl, Y Barri.
- teulu'r diweddar Barch. D. Lodwig Jones, Llanbedr Pont Steffan, a chyn weinidog Eglwys y Crwys, Caerdydd, a fu farw'n dawel ar 22 Rhagfyr. Bu'r angladd yng Nghapel Shiloh, Llanbed, ar 28 Rhagfyr, ac wedi hynny ym mynwent Eglwys Penboyr, Felindre.
- teulu'r diweddar D. Andrew Davies, cyn Ysgrifennydd CBAC, a fu farw'n dawel yn 99 oed yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, ar 2 Ionawr. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar 8 Ionawr.
- teulu'r diweddar Barch. Huw Ethall, Rhiwbeina, a fu farw yn Ysbyty Llandochau ar 4 Rhagfyr, yn 96 oed. Bu'r angladd yng Nghapel Minny Street ar 21 Ionawr ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- teulu'r diweddar Marian Davies, Rhiwbeina, ond gynt o'r Rhos, Pontardawe, a fu farw'n sydyn yn 80 oed ar 4 Ionawr. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- teulu'r diweddar Doris May Thomas, gweddw y diweddar Barch. Graham Thomas, a fu farw yn Ysbyty Treforys ar 7 Ionawr. Bu'r angladd yn Nhŷ Hedd, Treforys, ar 15 Ionawr.
- teulu'r diweddar Doris Richards, Y Barri, a fu farw'n dawel yng Nghartre Nyrsio Hazelhurst, Penarth, ar 17 Ionawr. Bu'r angladd yng Nghapel y Tabernacl, Y Barri, ar 25 Ionawr.

# Ôl-Lwybrau

31 o flynyddoedd yn ôl, ar ddechrau Ionawr 1982, parlyswyd y wlad am wythnosau gan gwymp eira mawr a'r tywydd yn rhewllyd gan "gloi pob nant a llyn", chwedl y bardd. Alla i ddim peidio â meddwl am y cyfnod hwnnw gan i mi gael y profiad o gael fy nal yn yr eira a'r rhew hwnnw am wythnos gyfan tra on i ar Gwrs Cymraeg i ddisgyblion pumed dosbarth yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog.

Dechreuodd y cwrs ar ddydd Llun 4 Ionawr ac odd e i fod i orffen ar ôl brecwast ar y dydd Gwener. Daeth tuag wyth deg o wersyllwyr ar y cwrs hefo tua phump ar hugain o swogs i'w dysgu am yr wythnos. Oedd y tywydd yn oer ond yn sych y rhan fwyaf o'r wythnos a phawb yn hapus eu byd!

Ond yn hollol ddirybudd ar y nos Iau, wedi i bawb glwydo, daeth yr eira – tunelli ohono – ac erbyn y bore oedd y wlad yn wyn a'r ffyrdd i gyd ar gau. Buan iawn y sylweddolwyd na fyddai'n bosibl i neb adael y gwersyll y bore hwnnw, ond feddyliodd neb y bydden ni yna am wythnos arall cyn gallu mentro troi am adre!

Doedd fawr o wres yn y stafelloedd gwely ond wrth lwc oedd digon o flancedi ychwanegol i'w rhoi i bawb ac roedd digon o fwyd i bawb yn y gegin! Aethpwyd ati i drefnu rhagor o wersi ac adloniant ar gyfer y gwersyllwyr a llwyddwyd i gadw pawb yn hapus am weddill yr amser. Un pnawn aeth nifer o swogs ar sgowt i bentre Llangrannog gan gerdded ar ben y cloddiau yn yr eira a sylwon nhw fod hyd yn oed y môr wedi rhewi!

Achoswyd tipyn o gyffro yn ystod yr wythnos pan gyrhaeddodd hofrennydd y gwersyll i gludo un o'r gwersyllwyr i Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth. Oedd rhaid gosod croes allan o hen sachau ar waelod y cae er mwyn dangos ble i lanio. Oedd yr olygfa fel rhywbeth allan o ffilm!

Ar y dydd Iau llwyddodd bysiau i gyrraedd y ffordd fawr i gludo'r rhan fwyaf o'r gwersyllwyr nôl i Gaerdydd a'r cylch, ond oedd rhaid iddyn nhw gerdded drwy'r eira at y bysiau tra cludwyd eu bagiau ar gart y tu ôl i dractor. Arhosodd nifer o'r swogs yn y gwersyll tan y dydd Gwener gan eu bod yn ofni mentro gyrru ar y ffyrdd llithrig, a chymerwyd oriau lawer i bawb gyrraedd pen eu taith yn ddiogel. Mae'r holl sefyllfa yn dal yn fyw ar fy nghof ac ar gof pawb arall siwr o fod a fu yn rhan o'r profiad.

**G.E.R.**

# Merched y Wawr Caerdydd

**Diwedd diddorol i 2012…**

Ym mis Tachwedd daeth Llŷr Dunsford atom i roi ychydig o hanes y busnes *charcuterie* a sefydlwyd ganddo yn 2010.

Magwyd Llŷr yng Nghaerdydd ond mae ei wreiddiau yn Sir Gaerfyrddin, o deulu sydd wedi ffermio yn y sir honno ers blynyddoedd. Symudodd o Gaerdydd yn 2004 i fyw ar y fferm deuluol ym Mhontnewydd. Er iddo gychwyn ei yrfa fel ffotograffydd, gan fentro hefyd i fyd ffilm a theledu, penderfynodd Llŷr roi'r gore i'r gwaith hynny yn 2010 a chanolbwyntio llawn amser ar greu busnes *charcuterie*.



*Alisone Stone (ar y chwith) a Rosina Davies yn cael hwyl ar baratoi selsig gyda Llŷr*

Yn ogystal â moch Cymreig, penderfynodd fagu moch Mangalitza, brid prin iawn o Hwngari, sy'n enwog am ei gig blasus. Yn ei gyflwyniad, soniodd Llŷr am ei ymweliadau â chynhyrchwyr yn yr Unol Daleithiau, Canada a'r Eidal lle bu'n astudio'r grefft draddodiadol o drin a halltu cig ac o baratoi selsig. Mae'r fusnes yn ehangu ac mae'r cynnyrch ar werth bellach ar draws de Cymru mewn marchnadoedd cynnyrch lleol a marchnadoedd ffermwyr.

I gloi'r noson, rhoddwyd cyfle i rai o ferched y gangen baratoi selsig a chael tipyn o hwyl arni! Noson ddifyr, ddiddorol ac, yn wir, unigryw!

Ym mis Rhagfyr treuliasom noson yng nghwmni Bethan Frost, athrawes dylunio a thechnoleg yn Ysgol Gwynllyw. Ar ôl graddio mewn gwaith metel a gemwaith yn Surrey gwnaeth gwrs ymarfer dysgu yng Ngholeg Goldsmith yn Llundain.

Testun y noson oedd *repoussé*, y grefft o forthwylio metel i greu llun. Un o'r enghreifftiau mwyaf enwog o waith *repoussé* yw mwgwd Tutankhamun. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau drin darn bach o gopr a chreu llun, cyn symud ymlaen i greu carden Nadolig â llun wedi ei drin yn y copr yn ei chanol.

Mwynhaodd yr aelodau noson hwyliog ac addysgiadol, a phawb â charden Nadolig dra gwahanol i'w harddangos dros yr Ŵyl.

Eirian Kelly

**… a dechrau difyr i 2013**

Yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd braint oedd cael croesawu Emyr Edwards, cyn brif-ddarlithydd o Goleg y Barri, i'n plith. Cawsom noson ddifyr iawn yn gwrando ar Emyr yn sôn am y gyfrol *Cerddi'r Fro*, sef cerddi ei dad, y Prifardd J M Edwards a oedd yn enedigol o Lanrhystud ac yn un o feirdd y Mynydd Bach, cyn ymgartrefu yn y Barri. Hefyd cafwyd datganiadau llafar ardderchog o waith y bardd gan Kathleen, gwraig Emyr, a'u ffrindiau Wyndham Richards a John a Marian Evans.

Shan Morgan



*John Evans, Kathleen Edwards, Wyndham Richards, Marian Evans ac Emyr Edwards*

# COLOFNYDD Y MIS

## Elinor Patchell

Rydw i'n ysgrifennu'r tamaid erthygl yma rhwng y Nadolig a'r Calan, y pant hwnnw yn y flwyddyn pan nad oes neb yn siwr pa ddiwrnod o'r wythnos yw hi na pryd daw neb i gasglu'r sbwriel. Mae'r Saeson wedi bathu term am y cyfnod - *Twixmas*. Mae'r gwestai a'r diwydiant lletygarwch wedi ei fabwysiadu fel modd o ddenu gwesteiwyr am wyliau (cymharol) rad i gael hoe fach rhwng prysurdeb y Nadolig a rhialtwch Calan.

Ond fy nhueddd i yw edrych nôl dros ysgwydd y flwyddyn a 'magu meddyliau' am a fu ac am heriau sydd i ddod.

Yr amser yma llynedd, fel Cadeirydd Corff Llywodraethu cysgodol Ysgol Gyfun Bro Edern, rown i'n go bryderus. Bu ansicrwydd am ei lleoliad, am ei hagor hyd yn oed, am gyfnod. Ai dros 'rith o ysgol' yr own i a'm cyd-lywodraethwyr yn trefnu, fel y'm cyhuddwyd gan un rhiant? Tynnwn faeth o benodiad Iwan Pritchard yn Bennaeth ychydig ddyddiau cyn Nadolig 2011. Gŵr o Ben Llŷn, yn llawn brwydfrydedd a gweledigaeth.

Er na fydddai'n dechrau yn ei swydd tan ganol Chwefror, ymdaflodd i'r gwaith o baratoi agor yr ysgol ym Medi 2012. Cyfarfu â phenaethiad yr ysgolion cynradd, cyfarfu â'r rhieni. Daeth i'w gyfarfod cynta gyda'r Llywodraethwyr gyda chynllun staffio, cynllun cwricwlwm a rhestr o anghenion offer ac ati - a hynny am y dair blynedd gynta. Os oedd yn cyflawni gymaint â hyn cyn dechre yn swyddogol, beth allem ddisgwyl pan oedd yn ei swydd yn llawn amser?! Roedd y llif yn troi o'n plaid.

Cytunwyd mai ar dir ysgol Glantaf y byddai'r ysgol am flwyddyn, cyn symud i'w chartre parhaol ym Medi 2013 a hynny ar leoliad Ysgol Teilo Sant. Roedd awydd y ddau bennaeth i weld addysg Gymraeg y ddinas yn ffynnu a llwyddo, a'r parodrwydd i gydweithio er sicrhau hynny, yn batrwm i bawb.

Ac os na wyddai swyddogion y Sir beth oedd anghenion a sialensau agor ysgol uwchradd newydd, fe wyddai ein Pennaeth ni ac ni fu'n hwyrfrydig i wasgu ar y swyddogion i sicrhau y byddai Bro Edern yn cael ei haeddiant. Nid dyn 'i roi give up' yw Pennaeth Bro Edern, i ddefnyddio un o ymadroddion ei fro enedigol!

Ni adawodd i ninne, y Llywodraethywr, laesu dwylo chwaith. Gydol y Gwanwyn buom yn cyfweld a phenodi staff i'r swyddi cychwynnol angenrheidiol. Ac fe gawsom staff oedd yn adlewyrchu brwdfrydedd a gwelediageth y Pennaeth. Rhaid oedd dewis lliwiau'r ysgol a gwisg; llunio arwyddair a logo. Dyddiau a chyfarfodydd cyffrous.

Erbyn Mehefin, roedd Iwan ac Elena, ein bwrsar, wedi ymgartrefu yn yr adeilad a fyddai'n 'galon' i'r ysgol am flwyddyn, sef adeilad y Clwb Ieuenctid ar dir Glantaf. Peintiwyd hwnnw yn lliwau'r ysgol a'i gymoni tu hwnt i adnabyddiaeth. A chredais am sbel 'mod i wedi cyflogi Iwan fel cariwr a datbaciwr celfi, gan y deuai â rhyw gelficyn neu barsel yn ddyddiol.

Daeth mis Medi, a dros 70 o ddisgyblion yn mynd trwy ddrysau Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern. Pe bawn i yn gi, byddwn wedi siglo fy nghynffon! Ac ychydig ddyddiau cyn diwedd tymor y Nadolig, caed cyngerdd cynta'r ysgol mewn capel o fewn dalgylch yr ysgol yn nwyrain y ddinas. Pob plentyn yn cymeryd rhan. Pob teulu yno yn cefnogi.

Mor wahanol fy nheimladau y Nadolig hwn. Yr ysgol wedi'i sefydlu, yn fangre hapus i'w disgyblion, lle cânt y cyfleoedd gorau i ddatblygu yn bobol ifanc hyderus a chrwn. Her y flwyddyn newydd fydd symud i'n cartre parahaol yn adeiladau Teilo Sant - a mynd ag ysbryd anturus, brwdfrydig eleni gyda ni.

### *Llongyfarchiadau i*

- James ac Eleri Williams, Llandaf, ar enedigaeth Nia, eu cyntaf anedig, ar 23 Hydref.
- Angharad Chandler o Ysgol Uwchradd Caerdydd ar ennill gwobr CBAC am y marciau uchaf yn y Gymraeg yn yr Arholiad Safon Uwch (Ail Iaith) yn 2012. Mae hi nawr yn astudio yng Nghaergrawnt.
- Winston Roddick, Cyncoed, ond gynt o Gaernarfon, ar gael ei ethol yn Gomisiynydd cyntaf Heddlu Gogledd Cymru.

**Croeso**

Yn ystod mis Ionawr daeth Judith Jones o'r Gaiman i aros gyda'i chwaer, Miriam Tilsley, Rhiwbeina. Mae Judith yn athrawes yn ysgol ddwyieithog Cymraeg / Sbaeneg yn Nhrelew yn y Wladfa, lle mae 90 o blant ar hyn o bryd.

# *Cystadlu am deitl Côr Cymru 2013*

Mae rhestr fer Côr Cymru 2013 wedi ei chyhoeddi gydag un côr ar hugain wedi eu dewis i gystadlu yn y rowndiau cynderfynol yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar benwythnos 15 i 17 o Chwefror. Bydd y côr buddugol ym mhob un o'r pum categori wedyn yn cystadlu yn y ffeinal, sy'n cael ei darlledu'n fyw ar S4C nos Sul, 14 Ebrill 2013.

Ymhlith y cystadleuwyr mae'r corau canlynol o Gaerdydd a'r Fro. Pob lwc! Corau Plant – **Côr Plant Heol y March**, o'r Fro; Corau Ieuenctid – **Aelwyd y Waun Ddyfal**; Corau Meibion – **Bois y Waun Ddyfal**, Corau Cymysg – **CF1**, sy'n dathlu ei ben blwydd yn ddeg oed eleni.

Meddai'r cynhyrchydd Gwawr Owen o gwmni Rondo Media: "Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar i ddychwelyd i Ganolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar gyfer cystadleuaeth 2013. Mae e'n achlysur pwysig yng nghalendr corau yng Nghymru ac ry'n ni'n gweld y safon yn codi o flwyddyn i flwyddyn. Ry'n ni'n disgwyl cystadleuaeth wych eto eleni gydag awyrgylch drydanol."

Mae rhagor o wybodaeth am y gystadleuaeth ar wefan Côr Cymru 2013, **s4c.co.uk/corcymru** neu trwy ffonio Sioned Williams ar 02920 741336.

# YSGOLION

## Ysgol Glan Morfa

Bu'r hanner tymor diwethaf yn un hynod o brysur o ran ymweliadau allanol a phrofiadau buddiol i'r plant. Cafodd disgyblion y Dosbarth Derbyn amser gwych ym Mharc y Rhath. Cawsant gyfle i weld nifer o blanhigion ac anifeiliaid diddorol ac i fwynhau cinio blasus yn y caffi. Cafodd plant Blwyddyn 1 amser da wrth ymweld â swyddfa'r post ac aeth Blwyddyn 2 i ddarganfod mwy am Gastell Caerdydd. Cafodd plant Blwyddyn 4 amser arbennig wrth iddynt ymweld â Llancaiach Fawr, gan wirioni ar hanes yr ail ganrif ar bymtheg yng Nghymru.

I'r panto yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yr aeth plant y Cyfnod Sylfaen, gan fwynhau cynhyrchiad o *Sinderela* gyda Martyn Geraint yn fawr iawn. Treuliodd Blwyddyn 6 sawl sesiwn yn Ysgol Gyfun Glantaf, gan wylio'r sioe *Nôl i'r 80au* a chael budd o ddiwrnod llawn gweithgareddau difyr.

Cafodd côr yr ysgol noson fythgofiadwy yn Neuadd Dewi Sant – diolch o galon i Mr Elis a Mrs Lansley am eu harweiniad. Cafodd plant Blynyddoedd 5 a 6 amser ardderchog yn canu carolau y tu allan i siop Tecso, gan gasglu £65 at achos elusennol.

Braf iawn oedd gweld cynifer o rieni yn ein gwasanaeth carolau ac yn sioeau'r Cyfnod Sylfaen. Diolch o galon i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu ffair Nadolig hynod lwyddiannus a gododd gyfanswm o £764.

Croesawn Mrs Claire Morgan, ein hysgrifenyddes newydd, atom. Wrth groesawu Mrs Morgan dyma ddiolch yn fawr i Mrs Mullane sydd wedi gweithio'n ddiwyd yn ystod y misoedd diwethaf. Bydd y plant wrth eu bodd yn cael cwmni Mrs Mullane yn eu dosbarthiadau unwaith eto.

## Ysgol Glantaf

**Cyngerdd Nadolig yn Eglwys Dewi Sant**

Cafwyd cyngerdd ardderchog gan y disgyblion ar 12 Rhagfyr i ddathlu'r Nadolig, ac fe lwyddwyd i greu naws rhyfeddol o hyfryd yn yr Eglwys fendigedig hon. Cafwyd cyfraniadau gwych gan gorau'r ysgol, y bandiau a'r gerddorfa, a nifer o unigolion talentog. A diolch i bawb a gyfrannodd yn hael at elusennau Stand up for Cancer a Hosbis George Thomas.

**Taith Gobaith Hosbis George Thomas**

Llongyfarchiadau i Lantaf am ddod yn gyntaf o holl ysgolion y Sir am gasglu £2,024 i'r Hosbis yn y daith gerdded o gwmpas Parc Bute ym mis Hydref. Llongyfarchadau i Ffion Lundbech am ennill y gystadleuaeth i'r unigolyn am gasglu y mwyaf o arian.

**Sioe Gerdd Wych!**

Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang am dair noson o'r bron ar Dachwedd 20-22ain, lle y gwelwyd cynhyrchiad ysgubol o'r sioe *Nôl i'r Wythdegau* – sioe wedi ei seilio ar Ysgol William Ocean yn yr Amerig, stori yn dilyn hynt



Tipyn o hwyl a lliw y sioe *Nôl i'r Wythdegau*

a helynt disgyblion ac athrawon yn eu tro! Yn wir, roedd ôl graen ar y cynhyrchiad cyfan, gyda disgyblion o bob oedran – o Flwyddyn 8 i 13, bron i ddau gant ohonynt, yn perfformio yn egnïol a brwdfrydig o flaen cynulleidfa niferus.

Fe'n tywyswyd yn ôl i'r wythdegau, heb os, ynghanol yr holl hwyl a lliw.

Llongyfarchiadau mawr i bawb.

## Ysgol Melin Gruffydd

**Gala nofio**

Llongyfarchiadau i fechgyn Blwyddyn 4 yng Ngala Nofio Yr Urdd ar y 26/1/13. Y Gala Genedlaethol oedd diwedd y daith i'r cystadleuwyr ar ôl misoedd o ymarfer a chystadlu. Yn y ras cyfnewid rhydd llwyddodd y bechgyn wella eu hamser o'r Gala Sir ym Mhenarth cyn y Nadolig. Cafwyd amser o 1.29, ac mewn ras agos iawn, collwyd allan ar fedal o drwch blewyn.



*Nofwyr campus Bl.4*

**Traws gwlad**

Llongyfarchiadau i Tegid Phillips ar ddod yn 2il yn ras bechgyn cynradd y Cardiff Cross Challenge. Gyda rhedwyr o bob cwr o Brydain, gorffennodd y cwrs 1.7km

llawn eira a mwd mewn amser o 7.13. Tegid oedd y Cymro cyntaf adref.

Llongyfarchiadau hefyd i weddill y tîm: Sam Woods Bl.5 (8.37), Rhys Eames Bl.6 (8.48), Alaw Evans Bl.5 (9.09), Jessica P-S Bl.6 (9.58), Delyth Cook Bl.5 (10.00), Chelsea Williams Bl.5 (10.41) a Ffion Rees Bl.6 (10.53).




*Rhedwyr dewr Bl.6*

**Cynrychioli Cymru**
Llongyfarchiadau mawr i Tegid Phillips Bl.6 ar gael ei ddewis i dîm criced Cymru dan 11.

**Gwersi Cerddoriaeth**
Llongyfarchiadau i Chelsea Williams ar ei llwyddiant yn arholiad Gradd 1 bas dwbwl.

## Ysgol Pwll Coch

**Ysgol addysgu a dysgu yn y Trydydd Mileniwm**
Mae Ysgol Gymraeg Pwll Coch wedi ennill gwobr Addysgu a Dysgu yn y Trydydd Mileniwm.

"Beth yw hwn?", dwi'n tybio sydd ar eich meddyliau.

Mae cwmni Naace yn hybu dysgu mewn Technoleg Gwybodaeth ac yn annog ysgolion sy'n meddwl eu bod hwy yn dysgu ac yn addysgu'r disgyblion ar gyfer y dyfodol i ymgeisio am wobr y Trydydd Mileniwm

Ym Mhwll Coch mae pob un aelod o staff yn sicrhau eu bod nhw yn rhoi'r profiadau gorau i bob un disgybl, profiadau byw sy'n eu paratoi ar gyfer y dyfodol. Fel ysgol rydyn ni yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn achub ar bob cyfle i roi'r addysg orau sy'n sicrhau bod ein disgyblion yn paratoi ar gyfer beth sy'n eu hwynebu yn y dyfodol agos ar hyn o bryd.

Rydyn ni'n byw mewn cymdeithas sydd yn newid ac yn datblygu bob eiliad. Ym Mhwll Coch rydyn ni'n ceisio cyfoethogi'r Cwricwlwm gyda thechnoleg ar bob cyfle.



*Ein tîm o ddysgwyr digidol y trydydd Mileniwm yn dathlu eu llwyddiant*

I baratoi ar gyfer y wobr aeth ein tîm o ddysgwyr digidol ati i greu ffilm yn clodfori'r pethau da sy'n digwydd yn ein hysgol ni. Criw o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 aeth ati i greu sgript a'i ffilmio, ac roedd y ffilm yn ffrwyth wythnosau o waith caled.

Diolch i bawb a gyfrannodd at greu'r ffilm - gallwch ei gweld ar ein gwefan ysgol:

**http://ysgolpwllcoch.cardiff.sch.uk/**

Mwynhewch!

## Ysgol Y Wern

Llongyfarchiadau mawr i Lizzie Lovell-Jones ac Ismay Evans o Flwyddyn 6 am gael eu dewis i fod yn aelodau o Gerddorfa Plant Prydain Fawr eleni. Pob lwc i'r ddwy ohonynt wrth iddynt fynychu ymarferion a chyngherddau ar draws Prydain.

Llongyfarchiadau i Osian Gatehouse (Blwyddyn 6) am gael ei ddewis i chwarae rygbi i Ysgolion Caerdydd. Pob lwc i ti yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod Tymor yr Hydref cyflwynwyd y Drydedd Faner Werdd i Ysgol y Wern gan Mr Rhys Bebb ar ran Cadw Cymru'n Daclus. Cafodd Mr Bebb ei blesio'n fawr gan ymroddiad y Clwb Eco a'r disgyblion tuag at faterion Eco. Llongyfarchiadau i bawb. Anelwn nawr at y wobr platinwm.

Llongyfarchiadau i'r canlynol a wnaeth gyrraedd Rownd Genedlaethol Nofio'r Urdd ym mis Ionawr, yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro: Morgan Thompson, Menna Spittle, Georgina Withers-Boalch, Bethan Evans a Morgan Thompson. Llongyfarchiadau arbennig i'r ddau dîm cyfnewid (merched – dull rhydd a cymysg) ar ennill y medalau arian yn y rownd derfynol. Tipyn o gamp – ail dros Gymru!

Gwnaeth ein dirprwy, Mrs Kemp, ymddeol ar ddiwedd y tymor. Mae Mrs Kemp wedi bod yn rhan allweddol o fywyd Ysgol y Wern ers 27 o flynyddoedd. Hoffem fel ysgol ddymuno ymddeoliad hapus iawn iddi a diolchwn iddi am ei hymroddiad diflino i'r ysgol dros y blynyddoedd.

# DYRCHAFIAD CRCC - A CHARTRE NEWYDD

Fel mae rhai o ddarllenwyr Y Dinesydd yn gwybod, mae Clwb Rygbi Cymry Caerdydd (CRCC) wedi symud ei gartref i dafarn mawr yn Canton – The Duke of Clarence (y Diwc). Efallai bod rhai ohonoch yn meddwl: "O na, dim eto!" neu "Ai Crwydriaid y Ddinas yw CCRC? ". Gobeithio gwnaiff y geiriau canlynol fynd rhywle i esbonio'r holl beth.

Dros y ddau dymor 2010-11 a 2011-12, mae'r Clwb wedi bod yn llwyddiannus iawn ar y cae. Mae Undeb Rygbi Cymru (WRU) wedi rhannu'r clybiau i gyd i fewn i ranbarthau, ac rydym ni yn y Rhanbarth De Ddwyreiniol. Dechreuon ni dymor 2011 yn Adran 6, ond gyda'n llwyddiant ar y cae, cethon ni ddyrchafiad i Adran 5.

Mawr oedd ein hapusrwydd ac, yn ddigon rhesymol, roedd pawb yn meddwl y bydden ni'n aros yno am ychydig cyn edrych unwaith eto am ddyrchafiad. Ond roedd y duwiau yn gwenu, ac ar ddiwedd tymor 2011-12 roeddem ar frig Adran 5. Felly lan â ni i Adran 4.

Rhaid rhoi clod, nid yn unig i'r chwaraewyr am frwydro'n galed bob gêm, ond hefyd i waith caled (yn aml heb lawer o ddiolch ar nosweithi tywyll, oer y gaeaf) i'w prif hyfforddwr – Gareth Williams a'i dîm, Ceri Evans a Chris Thomas.

Mae pob tîm rygbi yn llwyddiannus os oes ail dîm da mewn bodolaeth er mwyn llanw'r bylchau pan fydd anafiadau, ac mae gwaith caled Mark Beynon gyda'r ail dîm yn meddwl ein bod yn gallu rhoi tîm cryf allan bob tro.

Roedd y Clwb yn sefydlog yng nghartre Clwb Bowls Penhill am sbel, ac roeddem wedi dod i ddealtwriaeth gyda nhw – trwy ymdrechion Rhys Jones – i ofalu am y lle trwy'r tymor Rygbi. Roedd hyn yn golygu ein bod yn gallu cynnal nosweithi llawen ayyb yno i ddod â thipyn bach o arian i fewn i'r Clwb. Yn anffodus fe wnaeth aelodau'r Clwb Bowls benderfynu ei werthu yn gyfangwbwl i gwmni adeiladu tai, felly roedd rhaid i ni symud mas.

Ar ddechrau'r tymor yma, felly, roedd hi'n hanfodol i ni ddod o hyd i le arall i alw'n 'gartref'. Yr unig le oedd yn addas ar y pryd oedd yr Half Way ar Heol y Gadeirlan. Buon ni yno am dipyn ond doedd y Skittle Alley ddim yn lle delfrydol, a dweud y gwir.

Felly aeth Gareth yn ei flaen i edrych am gartre newydd. Clywodd e bod y Diwc yn edrych am gwsmeriaid, ac ar ôl cwmpo dan swyn ei eiriau hudol, fe gethon ni groeso i ddefnyddio'r lle fel clwb. Ddydd Mercher 2 Ionawr fe symudon ni bopeth o'r Half Way i'r Diwc – crysiau, cwpanau, cit ayyb. Yng nghornel yr ystafell mae cerfddelw o Elvis Presley. Roedd Owain Tudur, ein capten, wrth ei fodd o'i weld, ac fe fabwysiadodd e Elvis i'r Clwb trwy ei addurno gyda hen grys cyn gapten y Clwb, Hywel Jones.


Roedd dydd Sadwrn Ionawr 12fed yn ddiwrnod mawr – diwrnod bedyddio'r Diwc yn gartre newydd i ni. Daeth tîm Cyntaf Wattstown ac ail dîm y Barri yn ôl i'r Diwc am bryd o fwyd a diod fach. Wel, fe aeth popeth yn fendigedig – heblaw bod y landledi, Mrs Sarah McCreadie, wedi rhedeg mas o chips! Odd hi wedi cael sioc bod chwaraewyr rygbi (ar ôl gêm galed) yn gallu bwyta siwd gymaint! *"Buy more next time, cariad,"* dwedes wrthi, *"especially for the international days."* Ie, bydd y lle'n llawn dop ar y diwrnodau hynny – a croeso i chi ymuno â ni. Odd, odd hi'n noson agoriadol grêt, ac Elvis yn ymuno a 'bopan' yn hyfryd yn y cornel. Edrych ymlaen at amser 'bywiog' yn y Diwc.



*Rheolwraig groesawgar y Diwc, Sarah McCreadie*

Os oes unrhyw un sydd yn darllen hwn am ein cefnogi yn ariannol (mae eisiau arian arnom), croeso i chi ymuno gyda ni. Am £50 y flwyddyn fe allwch fod yn VIP o'r Clwb, neu PPI – Person Pwysig Iawn!! Cewch fwy o fanylion am hyn ar ein gwefan – clwbrygbi.com

**Leighton Jones** (Cadeirydd)



*Elvis Jones yng nghrys y Clwb*

# Y Parchedig Huw Ethall, Rhiwbeina

Yn 96 oed bu farw'r Parch Huw Ethall, Rhiwbeina, ar y 5ed o Ionawr yn Ysbyty Llandochau ar ôl cystudd byr.

Brodor o Gaernarfon oedd Huw ac ar ôl cyfnod yn ardal Caeo fel gwrthwynebydd cydwybodol adeg y Rhyfel aeth yn fyfyriwr i'r brifysgol yng Nghaerdydd lle daeth yn aelod yng Nghapel Minny Street a chodi i'r weinidogaeth o dan y Parch R J Jones. Yno hefyd y priododd Huw a Hilda. Aeth ymlaen i'r Presby yng Nghaerfyrddin i fynd yn weinidog gyda'r Annibynwyr.

Cafodd ef a Hilda ddwy ferch, Rhian a Sian. Bydd llawer yn anwylo'r cof amdanynt fel teulu yn ardaloedd Brynaman, Porthmadog a'r Garnant ac yna yn Elim, Ffynnon-ddrain ger Caerfyrddin. Ei ofalaeth olaf oedd capel Bethel, Sgeti, lle bu'n weinidog ar Ryan Davies, ymhlith eraill. (Ef gymerodd angladd Ryan). Wedi iddo ymddeol, symudodd Hilda ac yntau i Gaerdydd i fyw yn ymyl eu dwy ferch. Bu'n gofalu am Gapel Mynydd Seion Casnewydd am rai blynyddoedd a daliodd i bregethu tan i salwch ei oddiweddyd yn ei wythdegau. Ar un adeg bu'n ddarlledwr eithaf cyson ar raglenni crefyddol fel *Munud i Feddwl*. Bu hefyd yn destun rhaglen *Beti a'i Phobl* rai blynyddoedd yn ôl.

Cofir amdano fel llenor a chofiannydd. Cyhoeddwyd ei waith buddugol yn Eisteddfod y Fflint ym 1969, *Dyddiadur John Penry*, a bu'n awdur nifer o gofiannau: i Tegla i ddechrau ac yna R G Berry, i Curig Davies ac yn olaf i'w gyfaill mawr, Dewi Eurig Davies.

Am rai blynyddoedd bu Huw a Dewi'n cyfarfod yn wythnosol yng ngwesty Jury's yng nghanol Caerdydd. Wedi i Dewi farw, fe holwyd staff Jury's beth oedden nhw'n tybio oedd y ddau hen ŵr a gyfarfyddai yno mor selog. 'Dau gyrnol' oedd yr ateb – er mawr syndod i'r rhai a oedd wedi adnabod y ddau heddychwr selog!

Oddi ar iddo ddychwelyd i Gaerdydd, bu'n aelod ffyddlon unwaith eto o gapel Minny Street gan fynychu'r oedfaon yno'n gyson tan ddechrau mis Rhagfyr y llynedd.

Gedy ddwy ferch, Rhian a Sian, a hoffai'r ddwy ohonynt ddiolch o galon i staff Ysbyty Llandochau am y gofal arbennig a gafodd eu tad yno.

# LLYTHYRON

Annwyl Ddarllenwyr Y Dinesydd
*(yn arbennig y rhai ohonoch sy'n Gardis!)*

Mae Cymdeithas Hanes Blaenpennal yn lansio cyfrol ddwyieithog am hanes ardal y Mynydd Bach, Ceredigion (sef rhannau o bentrefi Blaenpennal, Blaenafon, Trefenter, Bronnant, Lledrod, Llangwyryfon, Pen-uwch a Bethania) ar 26 Medi. Bydd y llyfr yn cynnwys nifer o hen luniau o'r ardal hon hefyd.

Rydym yn cyhoeddi llyfr clawr meddal a chlawr caled ac yr ydym yn gwahodd tanysgrifwyr i'r gyfrol clawr caled, sy'n £25. Os hoffech gael eich rhestru fel tanysgrifwr yng nghefn y llyfr, a fyddech gystal â danfon eich manylion llawn (enw, cyfeiriad a ffôn/ebost) a siec am £25 yn daladwy i Cymdeithas Hanes Blaenpennal i: A Findon, Cymdeithas Hanes Blaenpennal, Y Felin, Blaenpennal, Aberystwyth, SY23 4TP erbyn 31 Mawrth.

Bydd copïau ar gael i'w casglu yn y lansiad ym Mlaenpennal ar 26 Medi. Os nad ydych yn medru bod yn bresennol y noson honno, a wnewch chi ychwanegu £5 arall i'r siec ar gyfer pacio a phostio. Diolch yn fawr.

Yn gywir
**Eirian Jones**
(e-bost: EirianJ@aol.com)

---

Annwyl Ddarllenwyr Y Dinesydd

**Ydych chi'n cofio darllen y nofel *Teulu Bach Nantoer*?**

Rydym ni yng nghwmni Unigryw wrthi'n paratoi rhaglen fydd yn cael ei darlledu ar S4C ddechrau'r haf i nodi canmlwyddiant cyhoeddi ***Teulu Bach Nantoer***. Yn ôl pob tebyg, y nofel hon gan Moelona, a gyhoeddwyd yn 1913, yw'r nofel fwyaf poblogaidd erioed i blant yn y Gymraeg.

Ar gyfer ein rhaglen yr ydym yn chwilio am bobl ddarllenodd y nofel pan yn ifanc – neu yn hŷn! Os ydych chi'n un o'r miloedd ddarllenodd y nofel ac am rannu eich atgofion, a fyddech chi mor garedig â chysylltu â ni naill ai drwy lythyr, ebost, ffôn neu ar *facebook*? Os nad ydych chi am gymryd rhan yn y rhaglen ond yn barod i rannu eich atgofion, mae croeso i chi, hefyd, gysylltu – bydd yn braf clywed mwy am y nofel ac atgofion pawb ohoni.

Os hoffech ddarllen y nofel eto neu ei darllen am y tro cyntaf, mae yna gopi ar gael ar wefan **Llyfrau o'r Gorffennol**. http://www.llyfrau.org/

Yn gywir,
**Catrin M.S. Davies** a **Dinah Jones**

Unigryw, Tŷ Goronwy, 32 Heol y Wig, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 2LN
Rhif ffôn: 07804 260042 Ebost: post@unigryw.com
Facebook: Teulu Bach Nantoer

**Troednodyn**

Bu Moelona, Elizabeth Mary Jones, yn byw yng Nghaerdydd am gyfnod – tua 1905-1917, sef cyfnod cyhoeddi'r nofel. Er na fydd 'na bobl yn ei chofio yng Nghaerdydd, fe fydd 'na wybodaeth am ei phrofiadau yno. Roedd, e.e. yn ymwneud â'r gymdetihas Eingl-Ffrengig a thrwy hynny aeth ati i gyfieithu gwaith llenor o Ffrainc o'r enw Alphonse Daudet. Ymddangosodd y cyfieithiadau mewn cylchgronnau. Byddai unrhyw wybodaeth amdani yn taflu goleuni ar y math o gymdeithas Gymraeg oedd yn bodoli yng Nghaerdydd yn ystod y cyfnod yna.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yng nghyfarfod olaf 2012 daeth Dr Hefin Jones atom i sôn am ei gyfrifoldebau a'i obeithion yn ei swydd newydd, Deon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cawsom hanes sefydlu'r Coleg Ffederal a'r rhagolygon hyd yma. Yn sicr ddigon, dyma gyfnod cyffrous yn hanes addysg uwch yng Nghymru, dechreuadau mentrus ac adeiladwaith arloesol yn gwneud defnydd dychmygus o fanteision technoleg sy'n diddymu, i raddau helaeth, ddibyniaeth ar gyfleodd addysg yn gaeth i leoliadau penodol.

Mae'r cyfan o'r newyddion da hyn ar www.colegcymraeg.ac.uk a rhwng cloriau cyhoeddiad deniadol. Mae pedair adran i'r ddapariaeth bynciol, yn eu plith Y Gwyddorau, sy'n cynnys astudiaethau daearyddiaeth, cyfrifiadureg, bioleg, biocemeg, amgylchedd, amaeth, mathemateg, ffiseg, peirianneg, cemeg.

Mae'r fenter wedi cychwyn a'r arwyddion cynnar yn galonogol. O hyn ymlaen bydd cynnydd yn dibynnu ar ymateb ysgolion a disgyblion uwchradd Cymru.

Yng nghyfarfod cyntaf 2013 cawsom gwmni yr Athro Emeritws Gareth Roberts o Fangor. Mae Gareth yn hen law ar drafod testun ei anerchiad i ni, Poblogeiddio Gwyddoniaeth – yn enwedig mathemateg, disgyblaeth ei arbenigedd.

Canolbwyntiodd ar fywyd a gwaith Robert Recorde (1530-1588) a aned yn Ninbych-y-Pysgod lle mae amgueddfa newydd i'w anrhydeddu. Erbyn heddiw mae Recorde yn adnabyddus am greu'r arwydd = i ddynodi 'hafal i', dwy linell gyflin – sy'n hirach yn y gwreiddiol na'r ffurff gyfarwydd i ni. Ond aeth Gareth â ni ar daith adnabod y dyn a ymgyrchodd yn ddygn i ddwyn cyfaredd mathemateg i'r werin ac eraill, yn destun diléit a difyrrwch yn ogystal â bod yn ddisgyblaeth weithredol ar gyfer masnach a diwydiant. Gwaetha'r modd, i lawer heddiw ac erstalwm, y wedd weithredol, anniddorol a orfu. Mae llyfr Gareth, *Mae Pawb yn Cyfrif*, a gyhoeddwyd yn 2012, yn ceisio gwyrdroi hyn. Soniodd am ei brofiad o geisio ennill sylw cyhoeddwyr Cymraeg i fentro gyda'i lyfr. Sawl sylw beiddgar.

Yn y drafodaeth eglurodd yr Athro yn syml sut y gellir cyflwyno mathemateg er mwyn porthi'r meddwl. "Beth yw tri saith?" – cwestiwn caeëdig gydag un ateb, 21. NEU "Os 21 yw'r ateb, pa gwestiwn neu gwestiynau a holwyd?"

# *Newyddion da i Gwrt Insole, Llandaf*



Mae'r adeilad rhestredig Gradd II* yma, sydd angen ei atgyweirio, newydd gael help llaw ariannol diolch i grant o £2.04m oddi wrth Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL), fydd yn cefnogi gwaith caled Cyfeillion Cwrt Insole, sef grŵp o wirfoddolwyr lleol sydd wedi ymgyrchu i achub yr adeilad a sicrhau ei ddyfodol.

Dywedodd Dr Manon Williams, Cadeirydd CDL yng Nghymru: "Rydyn ni'n aml yn dweud mai pobl sydd wrth galon prosiectau CDL, ac mae'r prosiect hwn yn dangos hynny'n glir."

Mae Cwrt Insole, sy gyferbyn ag Ysbyty Rookwood, yn dŷ Fictoraidd wedi ei amgylchynu â gerddi rhestredig Gradd ll*. Cafodd ei adeiladu ar gyfer teulu glofaol cyfoethog yr Insoles ym 1856 ac mae'n symbol o orffennol diwydiannol cyfoethog de Cymru.

Defnyddir yr arian i adfer yr adeiladau a'r gerddi, a thrawsnewid bloc o stablau sydd 'mewn perygl' i fod yn ganolfan i'r gymuned leol, digwyddiadau, busnesau cymunedol a mentrau cymdeithasol.

Gobeithir denu 30,000 o ymwelwyr ychwanegol bob blwyddyn, pan fydd Cwrt Insole ar ei newydd wedd.

Ewch i wefan **www.insolecourt.com** ac info@insolecourt.com am fwy o wybodaeth, gan obeithio y gellwch chi, hefyd, ddod yn un o'r gwirfoddolwyr sy am roi Cwrt Insole a'i erddi ar y map.

***Dafydd Griffiths***

# Cymrodorion Caerdydd

'Rhuban Glas y Pafiliwn Pinc' oedd testun cyflwyniad Dr R. Alun Evans wrth annerch Y Cymrodorion nos Wener 7 Rhagfyr, sef Gwobr Goffa David Ellis yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ar gychwyn y noson gosododd Alun brawf gwrando ar bawb! Cawsom glywed enillwyr Eisteddfod Rhydaman 1970 (Tenor), Dinbych 2001 (Mezzo), Llanelwedd 1993 (Tenor), Aberystwyth 1992 (Baswr), Caernarfon 1959 (Tenor), Llanelli 2000 (Soprano) a Llandeilo 1996 (Tenor). Y gamp oedd adnabod y cantorion. Yr oedd amrywiaeth mawr yn y marciau (o blith y rhai a gafodd farc o gwbl!), ond yr enillydd oedd Graham Thomas – ac fe gafodd ei arwisgo gyda Rhuban Glas (go iawn), ond yr oedd yn gorfod ei ddychwelyd ar ddiwedd y cyfarfod!

Cawsom beth o hanes David Ellis, 'Dafydd y Pêr Ganiedydd' fel y cawsai ei adnabod yn ei ddydd. Fe'i ganed yng Nghefn Mawr, ger Wrecam yn 1873, ac fe'i prentisiwyd i deiliwr. Daeth i amlygrwydd gyda'i lwyddiannau yn Eisteddfodau Lerpwl 1900, Rhyl 1904 ac Abertawe 1907, ac fe gafodd gyfle i astudio yn y Coleg Cerdd Brenhinol. Nid oes recordiad o'i lais. Bu farw yn 1941.

Codwyd £200 (gwerth £6,000 heddiw) i sefydlu ymddiriedolaeth er cof amdano. Dyfarnwyd y Rhuban Glas cyntaf a gwobr o £5 yn 1943 i Megan Thomas/Halliday. Hyd yma dyfarnwyd y Rhuban Glas 65 o weithiau (12 Soprano, 4 Mezzo, 10 Contralto, 12 Tenor, 15 Bariton a 18 Baswr).

[**Atebion y Prawf:** Dai Jones, Sian Meinir, Washington James, Tony Lloyd, Stuart Burrows, Iona Jones, Rhys Meirion.]

# NEGES O OBAITH?

Ie, Blwyddyn Newydd Dda; tymor yr addunedau; troi tudalen ln, a.y.y.b. ... a llawer o'r addewidion yn deillio o'r gor-fwyta a'r gor-yfed a fu yn y cyfnod rhwng y Nadolig a Calan.

Dim byd o'i le ar dipyn bach o 'hunan-asesiad' – rhyw fath o MoT i'r corff a'r meddwl i weld beth sy angen sylw.

Bob yn hyn a hyn daw rhyw ffaith i'r golwg sy'n gallu peri sioc i'r system. Ychydig cyn y Nadolig gwnaed datganiad o'r math gan Sefydliad Iechyd y Byd – datganiad unfrydol gan y 193 aelod-wladwriaeth o'r WHO, fod: "Defnydd niweidiol o alcohol yn arwain at broblemau iechyd difrifol a'i fod yn effeithio ar bron i bob unigolyn yn rhyngwladol."

Cyhoeddwyd hefyd bod y cyffur yn lladd rhyw 2.5 miliwn o bobl dros y byd i gyd bob blwyddyn, gyda 300,000 o'r rhain yn blant a phobl ifanc. Ie, 2.5 miliwn! Mae'n holocost cudd, anweladwy; trosedd yn erbyn dynoliaeth – ac eto mae'n cael ei normaleiddio a'i drin fel busnes cyfreithlon, fel y mae ffrwydron tir.

Pan fo'r mwyafrif o lywodraethau'r byd yn sn am beryglon alcohol, os bosib os nad yw'n bryd i'r cyfoethocaf o'r llywodraethau hyn ddechrau wynebu'r anghenfil y maen nhw wedi'i greu? Tra bod y polisau gwannaf ynghylch prisiau alcohol wedi'u cyflwyno'n dawel gan ein llywodraeth, ni all unrhyw un fod llawer o ffydd y byddan nhw'n cymryd camau o ddifri i adfer rhywfaint o ddoethineb i ddeddfau trwyddedu Prydain. Nid yw'n fawr o gyfrinach bod ein meistri etholedig yn gwasanaethu'r rhai sy'n cyfrannu fwyaf at gronfeydd y parton gwleidyddol. Mae hyn yn golygu os oes newid ystyrlon i fod, rhaid iddo ddod oddi wrth y cyhoedd.

Yn hyn o beth efallai bod llygedyn o obaith ar gyfer y dyfodol. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Alcohol Concern ystadegau'n dangos bod y defnydd o alcohol ymhlith pobl ifanc 16-24 oed yn gostwng, a bod llwyr ymataliad ar gynnydd. Ac mae'n debyg bod y duedd hon wedi dechrau bron i ddegawd yn l, felly nid ffenomen ydyw sy'n ganlyniad i'r amseroedd economaidd anodd presennol.

Mae'n glir bod rhywbeth wedi newid yn dawel, yn raddol ac yn anesboniadwy. I ble bydd hyn yn arwain y flwyddyn nesaf neu'r degawd nesaf? Pa effaith gaiff hyn ar ein cymdeithas? Bydd yn rhaid i ni aros i weld – a byw mewn gobaith!

**Wynford Ellis Owen**

[Mae Wynford Ellis Owen yn Brif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill a Stafell Fyw Caerdydd – 58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT
T. 02920 493895 M. 07796464045
info@welshcouncil.org.uk
www.livingroom-cardiff.com www.welshcouncil.org.uk]

# *Saer Doliau*
# Gwenlyn Parry yn Llundain

Actor ifanc yw Siôn Alun Davies, brodor o'r Eglwys Newydd a chyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Yn ystod ei flwyddyn olaf yng ngholeg Guildhall, Llundain, fe sefydlodd Siôn, ynghyd â phedwar o'i gyd actorion, Gwmni Theatr Invertigo, a chawson nhw lwyddiant cynnar yn 2012 trwy ennill gwobr y Deutsche Bank ar gyfer mentrau creadigol.



*Siôn Alun Davies*

Roedd hyn yn eu galluogi i ddatblygu'r cwmni gan gynllunio nifer o gynyrchiadau unigryw a chyffrous ar gyfer 2012-13. Eu cynhyrchiad llawn cyntaf yw drama ysgubol Gwenlyn Parry, *Saer Doliau*, a gynhelir yn theatr y Finborough, Earl's Court, Llundain, yn ystod Chwefror eleni.

Prosiect mentrus yw hwn, ond un y maent yn teimlo'n angerddol amdano. Dywed Siôn:
"Rydyn ni'n teimlo ei bod yn bwysig iawn fod yr iaith Gymraeg yn cael ei chynrychioli ym myd y theatr yn Llundain. Rydyn ni'n gobeithio denu nid yn unig siaradwyr Cymraeg, ond dysgwyr a phobl sydd â diddordeb i ddysgu ychydig mwy am ein hanes!" Bydd is-deitlau Saesneg ar sgrîn yn cyd-redeg â'r perfformiad er mwyn sicrhau mynediad i'r ddrama i aelodau di-Gymraeg y gynulleidfa.

Agorodd y ddrama ar Chwefror y 3ydd a bydd yn rhedeg bob dydd Sul, Llun a Mawrth hyd at y 19eg o Chwefror. Aled Pedrick yw'r Cyfarwyddwr a'r actorion yw Catherine Ayers, Steffan Donnelly a Seiriol Tomos. Gellir prynu tocynnau ar wefan y Finborough: **www.finboroughtheatre.co.uk**

# Coro Angelicus



Cynhaliwyd cyngerdd gan Gôr Godre'r Garth o Efail Isaf dan ei arweinydd dawnus, Eilyr Owen Griffiths, mewn cydweithrediad â Band Dinas Caerdydd, ar 16 Rhagfyr yn Eglwys y Drindod, Penarth. Mae'r côr a'r band yn adnabyddus yn eu meysydd penodol, ac wedi ennill nifer o gystadlaethau ledled Prydain, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol.

Yn y rhan gyntaf, cafwyd nifer o eitemau amrywiol gan gynnwys *Sadoc ŵr Duw* gan Handel i fand a chôr, *Mor Hawddgar yw dy Bebyll* gan Brahms, *Locus Iste* gan Bruckner, a nifer o garolau cyfoes o waith Grace Williams a Gareth Glyn gan y côr i gyfeiliant y pianydd deheuig, Branwen Evans. Bu'r band, dan arweiniad Gareth Ritter, hefyd yn diddanu'r gynulleidfa gyda darnau rhythmig a bywiog, yn eu plith, teyrnged i Glenn Miller, Brenin Swing, a *Nadolig Caribïaidd*.

Ond uchafbwynt y noson, yn ddiau, oedd y gwaith cyffrous, *Coro Angelicus*, a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer y Côr gan Eilyr. Mae naw symudiad yn y gwaith hynod bersonol hwn, sy'n dwyn atgofion i'r cyfansoddwr o nifer o brofiadau hapus ac arwyddocaol a gafodd yn ystod ei gyfnod fel arweinydd a hefyd o ran ei fywyd personol. Er i'r Côr ei berfformio mewn cyngerdd a gynhaliwyd yn Scranton ym mis Awst 2012, fel rhan o Ŵyl Gymreig Gogledd America, hwn oedd y perfformiad cyntaf o'r gwaith gan gôr, band pres ac organ i'w gynnal yng Nghymru. Yr organydd dawnus oedd Jeff Howard sydd hefyd i'w glywed ar y CD o'r gwaith a recordiwyd yn 2011. Yn ogystal, cymerwyd rhan gan y telynorion medrus, Bethan Roberts a Lowri Jones, ill dwy yn aelodau o'r côr, i adlewyrchu'r traddodiad cerdd dant cryf a geir yn ardal Pontypridd.

Roedd ymateb brwdfrydig y gynulleidfa ar ddiwedd y cyngerdd yn dyst iddynt gael gwledd gerddorol o'r radd flaenaf.

# *Cynhadledd Academi Heddwch Cymru*

**Taenu trais ar drais yn drwch**
**Yw lladd i ennill heddwch,**

meddai John Penry Jones, Y Foel, Dyffryn Banw. I bawb, felly, sy'n dyheu am weld cyfiawnder a heddwch, croeso cynnes iawn i'r gynhadledd hollbwysig hon, a gynhelir yn Y Morlan, Aberystwyth, 10am – 4.30pm, ddydd Sadwrn, 23 Mawrth 2013.



Anerchir y gynhadledd yn y bore gan Jill Evans, ASE, Dr Robin Gwyndaf, Is-lywydd Cymdeithas y Cymod ac awdur *Rhyfel a Heddwch a Sancteiddrwydd Bywyd*, a'r Athro Jenny Pearce, Adran Astudiaethau Heddwch, Prifysgol Bradford.

Yn y prynhawn ceir gweithdai a thrafodaethau i ystyried y math o Academi Heddwch yr hoffem ei sefydlu, a'r camau pellach tuag at wireddu hynny.

Y Cadeiryddion fydd y Prifardd Mererid Hopwood a'r Bonwr Stephen Thomas. Bydd Côr Gobaith yn canu i agor a chloi'r gynhadledd.

Gorau oll os gall y cynadleddwyr roi gwybod (erbyn 9 Mawrth) o'u bwriad i fynychu. Anfonwch eich enw(au), os gwelwch yn dda, ynghyd â'ch cyfeiriad, ebost, a rhif ffôn, at: Jane Harries, 42 St Patrick's Drive, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 IRP, neu ejharries@hotmail.com (tel. 01656 768910 / 07720087132). Rhaglen y gynhadledd hefyd ar gael.


**TŶ DDEWI**
**Llety i 4/6**
**yng nghanol y ddinas**
**27 Ebrill i Mai 4, 2013**
**~ £350 ~**
**Am fanylion pellach**
**029 2075 4559**

# Newyddion o'r Eglwysi

## Capel Ebeneser

**Masnach Deg**

Yn ystod dau Sul diweddar bu'r ieuenctid yn gwerthu nwyddau Masnach Deg a llwyddwyd i godi £108. Dyma achos sy'n agos iawn i'w calonnau. Diolch am eu hymroddiad bob amser.

**Y Gymdeithas**

Ddechrau Rhagfyr diwethaf aethom i Neuadd Dewi Sant i gefnogi cyngerdd *A Night at the Movies* gan Gerddorfa Philharmonic Caerdydd, dan arweiniad eu harweinydd dawnus ac ysbrydoledig, Michael Bell. Roedd ei gyflwyniadau yn ffraeth a llawn hiwmor. Roedd yn noson i godi arian i Hosbis George Thomas - addas o gofio mai dyma oedd ein helusen i ddiwedd Rhagfyr. Cawsom noson o gerddoriaeth ffilmiau gan y cyfansoddwr John Williams. Ymhlith y rhaglen o weithiau'r cyfansoddwr cafwyd perfformiadau gwych a graenus o gerddoriaeth bythgofiadwy y ffilmiau Star Wars, Jaws, E.T., Indiana Jones, Jurassic Park a Saving Private Ryan. Roedd Cantorion Ardwyn yno hefyd, a Dr Iwan Morris, o'n plith, yn cyfrannu eitemau Nadoligaidd. Roedd yn noson i'w chofio.

**Gwasanaethau**

Dros fis Rhagfyr cafwyd gwasanaethau bendithiol yng nghwmni'r chwiorydd, ieuenctid, aelodau a phlant. Eleni, am y tro cyntaf, cafwyd gwasanaeth dwyieithog gydag aelodau Eglwys yr URC yn City Church, Windsor Place, ble mae Ebeneser yn cwrdd bob nos Sul.

**Bedydd**

Ar fore Sul 13 Ionawr bedyddiwyd Megan Sara, merch Llinos ac Andrew Brown. Yn wyres i Eynon a Delyth Williams a Ron a Nita Brown roedd pawb wedi dotio at y fechan wrth iddi gysgu'n braf drwy'r cyfan. Pob bendith i'r dyfodol i'r teulu bach.

**Cydymdeimlad**

Trist iawn inni oedd marwolaeth Marian Davies yn ddiweddar, a hynny cwta ddeufis ers colli Terwyn ei gŵr. Roedd y ddau ohonynt wedi bod yn aelodau ffyddlon a gweithgar nes i salwch eu llethu. Estynnwn gydymdeimlad dwysaf i Wyn a Huw a'u teuluoedd yn eu colled annisgwyl a disymwth. Coffa da amdani.

## Bethel, Rhiwbeina

Bu cyfnod y Nadolig yn un eithriadol o brysur fel arfer. Roedd y capel yn llawn ar gyfer Oedfa'r Nadolig gydag aelodau'r Ysgol Sul, y bobol ifanc a chôr y capel yn cymryd rhan. Penderfynwyd cyfrannu'r casgliad 'rhydd', £140, i Gronfa Gweithredu Dros Blant. Y cyfeilyddion oedd Mr Gwilym Roberts a Mrs Eluned Davies. Ar ôl yr oedfa galwodd Siôn Corn heibio gydag anrheg i bob un o'r plant.

Noswyl Nadolig cynhaliwyd Gwasanaeth Cannwyll a Charol, oedfa wedi ei threfnu gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. A Sul ola'r flwyddyn cawsom groesawu aelodau Salem, ein chwaer eglwys, i oedfa undebol. Cymerwyd rhan gan nifer o'r aelodau gyda Mr Gwyndaf Roberts yn pregethu.

Cafodd Carwyn Gage, Llysfaen, ei dderbyn yn gyflawn aelod gan ein Gweinidog, y Parch. T. Evan Morgan, ar 13 o Ionawr. Pob bendith iddo yn ein plith.

## Salem, Treganna

**Bedyddiadau**

Pob dumuniad da i Tirion, Tesni ac Olwen, tair chwaer a merched Catrin a Llew, a gafodd eu bedyddio yn Salem ar yr 20fed o Ionawr. Braf oedd gweld cynifer o'r teulu er gwaetha'r tywydd gwael. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

**Clwb Llyfrau, Clwb Coffi, Clwb Brecwast**

Cyfarfu'r Clwb Llyfrau i drafod *The Big Sleep* gan Raymond Chandler. Cyfarfu'r Clwb Coffi ar yr 11eg o Chwefror yn ystafell Edwin. Mae'r Clwb Brecwast hefyd wedi cwrdd ar gyfer babanod a phlant o dan oed meithrin. Croeso i chi ymuno â ni.

**Adran yr Urdd, Salem**

Gwych yw gweld cynifer o blant yn dod i'r Adran. Mae'r Adran yn cwrdd yn wythnosol y tymor hwn rhwng 6 a 7 ar nos Iau i ymarfer cystadlaethau'r Urdd ac i wneud celf a chrefft yr Urdd.

**Grŵp Canu**

Cyfarfu'r Grŵp Canu ddwywaith yn ystod y mis i baratoi tuag at y perfformiad nesaf!

**Apêl Guatemala**

O ran cyfanswm ein hymdrechion, llwyddodd Salem i godi £3,500 tuag at Apêl Guatemala yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Diolch i bawb am eu cyfraniadau ymarferol ac ariannol tuag at y llwyddiant yma.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Heather sydd wedi colli ei mam yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn hefyd yn ddwys â chyn-weinidog Salem, Y Parchg Haydn a Doreen Thomas, ar golli eu mab-yng-nghyfraith yn sydyn ym mis Ionawr.

## Tabernacl

**Priodas**
Rhannwn lawenydd Sian Richards a'i theulu yn y Gwenfo ar achlysur priodas ei mab, Wil. Cafodd gymar o Sir Ddinbych, a dymunwn yn dda iddynt wrth gychwyn ar eu taith briodasol.

**Cymdeithas y Chwiorydd**
Bu'r cyfarfodydd hyn yn fendith i'r chwiorydd ac yn dathlu cwmni a ffydd ei gilydd. Enghraifft o'u cyfarfodydd diweddar oedd y prynhawn pan gyflwynodd tair o'r chwiorydd dri llun oddi ar eu muriau. Soniodd Margaret Rees am lun o Gydweli, tra ardal Glyn Rhosyn oedd yn cael sylw'r llun ar wal Marion Williams. Aeth Beryl Eurig i gyfeiriad Llandysul a sôn am lun a bontiodd y cenedlaethau yn ei theulu hi.

**Cymdeithas Nos Fawrth**
Cafwyd cyngerdd hyfryd yn y capel pan ddaeth Côr Meibion Taf a Chôr Meibion Caldicot ynghyd i ddiddanu'r gynulleidfa. Diolch i bawb a ddaeth â bwyd neu ac a fu'n stiwardio'r achlysur hwn.

**Academi Llais**
Cyflwynwyd datganiadau campus yn y capel dan nawdd Academi Llais Ryngwladol Cymru. Dyma dystiolaeth bod yr hyfforddwyr fel Dennis O'Neill ac Euros Rhys yn cael cyfle i hyrwyddo doniau a gyrfaoedd rhai o gantorion mwyaf addawol ein cyfnod. Mae'r arlwy i'r dyfodol yr un mor gyffrous a byddai'n dda pe gallai darllenwyr y Dinesydd gefnogi'r gweithgareddau hyn. Os ydych am dderbyn gwybodaeth am y digwyddiadau, cysylltwch â Rob Nicholls, Huw Thomas neu Euros Rhys.

**Bore Coffi**
Diolch i Ron a Glenys Lindsay am agor drws eu cartref i ffyddloniaid y bore coffi yn ystod mis Tachwedd. Cawsom gyfle i ddychwelyd i gartref Beryl Eurig ddechrau mis Rhagfyr. Rydym yn hynod ddiolchgar i Megan Morris am gydlynu'r gweithgarwch hwn.

## Eglwys Dewi Sant

**Gwasanaeth Cristingl**
Cynhaliwyd y gwasanaeth hyfryd hwn ar Ŵyl yr Ystwyll. Bu'r plant yn paratoi'r Cristinglau, y symbolau o oleuni Duw, yn ystod Ysgol Sul y bore ac yn eu dosbarthu i bob aelod o'r gynulleidfa yn ystod gwasanaeth yr hwyr, cyn i bawb gerdded o gwmpas yr eglwys dan ganu. Roedd y casgliad ar gyfer gwaith Cronfa Archesgob Cymru er budd plant.

**Swper Santes Dwynwen**
Cafwyd noson hwyliog iawn yn neuadd yr eglwys ar Noson Santes Dwynwen. Mwynheuodd pawb swper blasus cyn cael eu difyrru gan Ieuan Jones, ein horganydd dawnus, a arweiniodd yr adloniant cerddorol.

**Llongyfarchiadau...**

- i Carys Alun a Norman Harries ar enedigaeth merch fach, Esyllt Ceinwen, chwaer i Selyf.
- i Catrin ac Alan Jeffreys, sy bellach yn byw yn Dubai, ar enedigaeth Seth Michael, brawd i Cai ac ŵyr arall i John a Chris Livsey.

**Bedydd**
Daeth llawer o deulu a ffrindiau Arwel a Michelle Lewis i'r eglwys er gwaetha eira a rhew mis Ionawr, er mwyn tystio i fedydd Ianto Meilir. Cafwyd gwasanaeth hyfryd i'w groesawu i deulu Dewi Sant.

**Cydymdeimlo**
Cofiwn yn ddiolchgar am Albert Thomas, Pontcanna, a fu'n aelod ffyddlon a diwyd am flynyddoedd maith. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Susan, ei ferch.

Cydymdeimlir yn fawr hefyd â Margaret Jones, Rhiwbeina, Judith a Rhodri a'u teuluoedd. Collodd Margaret ei brawd dros gyfnod y Nadolig wedi cystudd hir. Bu'r Hybarch Bertram Hughes yn Archddiacon Caerfyrddin cyn ymddeol. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Abergwili.

## Eglwys y Crwys

**Taith Gerdded**
Bu'r daith gerdded flynyddol yn hynod lwyddiannus er gwaethaf y tywydd gwael. Arweiniwyd y daith, a gychwynnodd o Orsaf Ffynnon Taf i fyny i'r gogledd tuag at Bontypridd, gan Mr David Jones.

**Y Gymdeithas**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Dechrau Blwyddyn hyfryd o dan arweiniad Mr Gareth Rhys Davies. Cymerwyd rhan gan aelodau'r Gymdeithas a chyflwynwyd dwy fyfyrdod amserol gan Mr William Tiplady a Miss Hanna Jones.


**Y Gorlan**
Cynhaliwyd dau gyfarfod diddorol dros ben yng nghwmni y Parch W.I. Cynwil Williams a Mr Peter Rowlands. Diolch i'r swyddogion am eu gwaith.

**Y Gymdeithas Ddrama**
Bu'r Gymdeithas Ddrama yn perfformio eu Panto 'Ffa Hud Jac' am ddwy noson ddiwedd Ionawr a chafwyd perfformiad arbennig ar gyfer y plant ar y pnawn Sul. Cafodd yr aelodau lawer o hwyl yn paratoi, a mwynhaodd pawb nosweithiau hwyliog a llawer o chwerthin.

Diolch i'r tîm cynhyrchu, Betsan Evans a Robin Owen ac i Robin Griffith am y gwaith sain.

**Aelod Newydd**
Pleser oedd cael croesawu Mrs Llywela Morris yn aelod o'r Eglwys. Mae Mrs Morris wedi bod yn ffyddlon iawn yn oedfaon y bore ac yng nghyfarfodydd Y Gorlan. Croeso mawr iddi i'n plith.

# DINESAIR Rhif 129



**Ar Draws**

1. Cwtogi eglureb bwysig sy'n ymwneud â'r Llan (8)
6. Tylwyth yn dal 500 rhidyll (4)
8. Mae hon a'i sail wedi ysgwyd (4)
9. Dal Arfon yn bod yn wastraffus (8)
10. '------ ------ dlodi; - nid cerrig
    Ond cariad yw'r meini' (RWP) (10,3)
11. Ci bach yn Lloegr yn dal mil neu rif arall (4)
13. Rhoi saws clir ar yn ail i'r llywaeth (4)
17. Dihirod y stryd (6,7)
20. Mae Tomos yn ymorol am Hywel yn amserol (8)
21. Symud Mali i Dde America (4)
22. Cymryd sbel i ddechrau sôn am Ianto bach (4)
23. 'Fy more fu ym Merwyn
    Ofer a gwag ---- ----' (RE) (4, 4)

**I Lawr**

2. Diferu galar tywyll (6)
3. 'Ond mae'n cofio'r holl daith er y cryndod a'r crwmi
   Ac ----- mae'n mynd dros y daith gyda blas' (WNW) (7)
4. Troi'n amal wedi diwedd mis cellweirus (5)
5. Gŵr y ffos yn chwilio seibiant (7)
6. Dad yn colli'i ben mewn mesur i'w plannu (5)
7. O! Dal fi rhag bod yn esgeulus (6)
12. Peth anorffenedig yw newid trefn lle bach (7)
14. Nid wrth ei big mae prynu ------- (7)
15. Yn betrus yn amal, gwna'r pethau bychain (6)
16. Teithio i adfael Tŷ Mawr (6)
18. Y wraig o Jericho ddiwedd tymor yn coroni'r brenin drwg (5)
19. Mae'n glir rhaid datganoli eglwys ddigysur (5)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Mawrth.

---

**Enillydd Croesair Rhif 127 -**

**Delwyn Tibbott, Llandaf**

**Atebion Rhif 127**

**Ar Draws** – 1. Amser hyfryd; 8. Lodes; 9. Trybini; 11. Wylofus; 13. Trofa; 14. Ysu; 15. Caled; 16. Cig; 17. Camfa; 19. Gwyddfod; 20. Darogan; 22. Gwair; 23. Croesaw Medi.

**I Lawr** – 2. Mydylau; 3. Eos; 4. Het; 5. Ysigo; 6. I lawr, yn codi; 7. Ddinas gadarn; 10. Ystad; 12. Selog; 15. Craig; 16. Coflaid; 18. Morwr; 21. Nia; 22. Gêm.

---

## Minny Street

### Cydymdeimlo

Bu'n gyfnod trwm o golledion i'r Eglwys wrth i ni gofio yn ddiolchgar am bum aelod, sef Islwyn Williams (Llandaf), Nansi George (Y Bontfaen), Griff Hicks (Pentre'r Eglwys Uchaf), y Parchedig Huw Ethall (Rhiwbeina) ac Eurydd Osborne (Penylan). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teuluoedd a chyfeillion oll.

### Drama'r Nadolig

Yn draddodiadol mae Minny Street wedi cynnal tair fersiwn o Ddrama'r Geni, ar dri bore Sul ym mis Rhagfyr, sef un gan y plantos, un gan y plant ac un gan y bobl ifanc. Ond y tro yma, dim ond un cyflwyniad oedd a hwnnw gan oedolion! Er i'r bugeiliaid daeru'n gyhoeddus am ba seren roeddynt yn ei dilyn, ac er i Gabriel fod yn gwisgo hen siwt wen Elvis, roedd y safonau ddim wedi gostwng. Mae'n rhaid dweud fod safon yr actio lawn cystal â phan oedd o dan ofal y plant, a hwyrach flwyddyn nesaf…

### Y wefan

Mae'r wefan yn mynd o nerth i nerth ac yn cael mwy a mwy o *hits*. Hyd yn oed ar ddydd Nadolig roedd 41 person wedi cysylltu, yn cynnwys un o wlad Groeg! Mae pregethau'r Sul yn syth ar y we y noson honno, fel y mae hanes holl weithgareddau eraill yr eglwys. Mae negeseuon treiddgar a newydd Munud i Feddwl a Thrydar y Gweinidog yn werth eu dilyn bob amser ac os nad ydych wedi bod ar y wefan eto, trowch i mewn i www.minnystreet.org i weld.

# Calendr y Dinesydd • Rhagfyr - Chwefror

**Mawrth, 12 Chwefror**
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Dr Christine James, yr Archdderwydd etholedig, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Gwener, 15 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Heini Gruffudd yn trafod ei gyfrol *Yr Erlid*, yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (Adeilad y Dyniaethau gynt), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Gwener, 15 Chwefror**
Clwb y Diwc. 'Cnoi Draenogod': Rhys Iorwerth, Osian Rhys Jones, Anni Llŷn a Llŷr Gwyn Lewis yn taro golwg farddol a cherddorol ar y Sipsiwn Romani. Yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna am 8.00pm. Mynediad: £7.00. (Tocynnau ar gael yn Caban: 029-2034-2223; niacaban@hotmail.co.uk.)

**Sadwrn, 16 Chwefror**
Bore coffi i rai sy'n dysgu Cymraeg rhwng 10.30 a 12.00. Am 11.00am, sgwrs gan Emyr James am yr Aifft. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 16 Chwefror**
Gêm rygbi: CWINS Caerdydd v. Dowlais. C.G. 2.30pm. Maes 'Diamond', Heol Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd. Croeso i bawb gymdeithasu yn y clwb cyn ac ar ôl y gêm!

**Llun, 18 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Llŷr Dunsford o gwmni cig Charcutier, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Llun, 18 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. John Idris Jones (Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni Môn) yn siarad ar y testun 'Ynys Ynni – Datblygiadau Carbon Isel ar Ynys Môn', yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 19 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Hwyl a Sglods dan ofal Glyn Evans, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

**Mawrth, 19 Chwefror**
Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De). 'Perthnasau Draw.' Golwg ar ymfudo o Gymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda Bob Puw. Manylion pellach: eirypalfrey@yahoo.co.uk

**Mercher, 20 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Amser i Newid?' Sgwrs gan Dr Elin Jones, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Iau, 21 Chwefror**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwesteiwraig: Angharad Mair. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i aelodau newydd. Manylion pellach: Rhiannon Gregory (029-2069-4667).

**Iau, 21 Chwefror**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Myfyrdod y Grawys 1' dan ofal y Parch. Denzil John, yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Mercher, 27 Chwefror**
Merched y Wawr Bro Radur. Noson y Dysgwyr, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Sadwrn, 2 Mawrth**
Ysgol Fore Cymdeithas Carnhuanawc rhwng 9.45 am ac 1.30pm ar Lawr 4 y Llyfrgell Ganolog ar yr Ais. Darlithwyr: Yr Athro Jane Aaron, Yr Athro John Gwynfor Jones a Dr David Jenkins. Tâl cofrestru: £5.00. Manylion pellach: Alan Jobbins (029-2062-3275; asjobbins@btinternet.com).

**Llun, 4 Mawrth**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30pm. Prif westai: Ioan Kidd. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 5 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Dathlu Gŵyl Ddewi dan ofal y Parch. Owain Llŷr Evans, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

**Mercher, 6 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cinio Gŵyl Ddewi, yn festri Capel Minny Street am 1.00pm. Gwraig wadd: Dr Christine James, yr Archdderwydd etholedig.

**Iau, 7 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Myfyrdod y Grawys 2' dan ofal y Parch. Evan Morgan, yng Nghapel Salem, Treganna, am 7.30pm.

**Mawrth, 12 Mawrth**
Merched y Wawr Caerdydd. Cinio Gŵyl Dewi, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Gwener, 15 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro M. Wynn Thomas ar y testun '"The Painter's Impressed Brush": Ymateb R. S. Thomas i Luniau', yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (Adeilad y Dyniaethau gynt), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Gwener, 15 Mawrth**
Clwb y Diwc. Geraint Lovgreen a Neil Rosser yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna am 8.00pm.

**Sadwrn, 16 Mawrth**
Bore coffi i rai sy'n dysgu Cymraeg rhwng 10.30 a 12.00. Am 11.00am, sgwrs gan Lis Williams am Bentre-tŷ-gwyn. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 18 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Swper Gŵyl Ddewi ac adloniant, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.00pm.

**Llun, 18 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Darlith gan Dr Emyr Lloyd-Evans (Prifysgol Caerdydd) ar dwbercwlosis a stumog y gell, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 19 Mawrth**
Darlith Goffa G. J. Williams (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd) ar y testun '"... pobun â'i lais, ... pobun â'i le": Waldo Williams, Bardd Plant Cymru' gan Dr Mererid Hopwood. Yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (Adeilad y Dyniaethau gynt), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Bydd derbyniad gwin yn dilyn y ddarlith. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 19 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Owen Pickerill yn sgwrsio am ei ddiddordebau, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mercher, 20 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. I'r Wladfa yng nghwmni Bob Pugh, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Iau, 21 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Myfyrdod y Grawys 3' dan ofal y Parch. Alun Tudur (Ebeneser), yn adeilad Eglwys Canol y Ddinas (URC), Windsor Place, am 7.30pm.

**Gwener, 22 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Yr Athro Richard Wyn Jones yn trafod Cyfansoddiad Cymru, yn festri Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 7.30pm.

**Iau, 28 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Cinio Pen Tymor, yng Nghlwb Golff Llanisien, am 7.00pm. Gwestai: Parch. Ddr R. Alun Evans.

**Gwener, 29 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Oedfa Dydd Gwener y Groglith dan ofal y Parch. Glyn Tudwal Jones, yng Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 2.00pm.

**Llun, 8 Ebrill**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30pm. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 9 Ebrill**
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Efa Gruffudd Jones, Prifweithredwr Urdd Gobaith Cymru, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

# Merched y Wawr Bro Radur

## Cyfarfod Ionawr

Estynnwyd croeso i bawb ar ddechrau'r flwyddyn gan Carys Tudor Williams (y llywydd) ac roedd yn braf iawn cael aelod newydd arall atom, Sandra Price, sy wedi symud o Nantgaredig i fyw yn Llanishen. Anfonwyd ein cofion a'n dymuniadau da at Iona Jones. Cadeiriwyd y noson gan Eirlys Davies a diolchodd hi i Carys Tudor Williams, Eleri Jones (ysgrifenyddes) a Rose Jones (trysorydd) am drefnu dathliad Nadolig mor arbennig ym mwyty *ffresh* a chyngerdd yn Neuadd Alun Hoddinott ym mis Rhagfyr. Apeliodd Shirley Williams (Swyddog Datblygu'r De Ddwyrain) am fagiau o bob math, mewn unrhyw gyflwr, fydd yn cael eu trosglwyddo i Gymorth Cristnogol. Ailgylchir y rhai salaf a gwerthir y gweddill yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol.

## Noson ysbrydoledig i ddechrau'r flwyddyn

Roedd Dan Lewis yn deiliwr yn Hen Dŷ Gwyn ar Daf, bob amser â nodwydd yn lapel ei siwt, pwt o bensil yn ei boced ac yn gweithio yn ystafell ffrynt y tŷ. Ei wyres, Sandra Rose, oedd yn rhannu ei thrysorau tecstilau gydag aelodau Cangen Merched y Wawr Bro Radur ar yr ail o Ionawr eleni. Ymysg y trysorau roedd Sandra wedi dod gyda hi roedd siwt fach felfed ddu roedd ei thad-cu wedi ei gwneud 58 mlynedd yn ôl ar gyfer bedydd ei brawd. Dangoswyd siwmper a wnaeth Sandra o wlân un ddafad gyfan a'r lliwiau naturiol yn ganlyniad i ferwi cennin Pedr gwywedig, dail poethion a chroen winwns. Mae'n hoff iawn o ddeunydd ffelt ac o sgidie. Mae ei phedair wyres yn lwcus iawn i gael mam-gu i lunio trysorau teuluol o esgidiau bach cain iddyn nhw.

Cadwodd Sandra Rose ei thrysor pennaf tan yn olaf sef llyfr mawr gyflwynwyd iddi gan ei chyd-weithwyr yn y Gyfadran yn Ysgol Cwm Rhymni ar achlysur ei hymddeoliad, ar ôl ugain mlynedd yno fel athrawes tecstilau. Cysylltwyd â chyn-ddisgyblion oedd wedi astudio'r cwrs Lefel A, anfonwyd darn o ddefnydd calico atyn nhw a chais i ddylunio unrhyw beth yn ymwneud â RHOSYN. Doedd dim angen i Sandra ddarllen negeseuon yr un ohonyn nhw – roedd y darnau calico gorffenedig yn mynegi personoliaeth a dawn yr unigolyn.

Meri Griffiths



*Yn y llun (o'r chwith i'r dde) – Nia Jones, Eleri Jones, Shirley Williams, Rose Jones, Sandra Rose (gyda chasgliad o'i thrysorau tecstilau), Eirlys Davies a Carys Tudor Williams*

# CC – Pwy ydym ni?

Cylch Cinio neu Cymdeithas Carnhuanawc yw'r ateb i nifer ohonom ni!



*Alun Reynolds, Cadeirydd y Cylch Cinio, yn croesawu Jane Davidson yng nghyfarfod Ionawr*

Mae'r **Cylch Cinio** wedi dechrau rhaglen 2013 gyda Jane Davidson yn westai ym mis Ionawr. Rhannodd Jane Davidson ei meddyliau am ei gwaith ar gynaliadwyedd ym Mhrifysgol Y Drindod Dewi Sant. Erbyn i chi gael y rhifyn yma o'r Dinesydd byddwn wedi clywed Gareth Pierce ddechrau Chwefror yn siarad am ymgyrch i achub pentre Llangyndeyrn rhag cael ei foddi; ac yn edrych ymlaen at gwmni Ioan Kidd sydd yn dod atom ar y 4ydd o Fawrth.

Bydd aelodau'r CC arall – **Cymdeithas Carnhuanawc** – yn edrych ymlaen at Ysgol Fore ar yr 2il o Fawrth yn y Llyfrgell Ganolog, pryd y bydd Yr Athro Jane Aaron, Yr Athro John Gwynfor Jones a'r Dr David Jenkins yn annerch.

Os ydych chi eisiau manylion am unrhyw beth o'r un o'r ddau CC cysylltwch â fi, Tony Couch, ar ajcouch@yahoo.co.uk.


Hei-di-ho
Hwyl a cherdd i bobl bach
Fun and music for little people

**Arweinydd**

*(cyflog - gellir ei drafod)*

Mae sesiynau hei-di-ho yn rhoi cyfle i blant a'u rhieni/gofalwyr i gael hwyl gyda'i gilydd wrth ddod yn gyfarwydd â phrofiadau chwarae creadigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r sesiynau ar hyn o bryd yn rhedeg yn yr Eglwys Newydd a Phontcanna. Gyda mwy o arweinwyr hoffwn ehangu i wahanol ardaloedd yng Nghaerdydd a'r Fro. Dwi hefyd yn chwilio am unigolion a fyddai'n hoffi fy helpu i yn fy menter newydd i redeg partïon Cymraeg.

Os ydych yn mwynhau cwmni plant ac yn barod i gael hwyl a sbri cysylltwch â Stephanie :
***Rhif ffôn: 07803 152356 neu e-bostiwch: heidiho.cerdd@yahoo.com***

# CLWB CYMRIC

Mae'r tywydd garw wedi amharu'n fawr ar gemau Clwb Cymric yn ddiweddar, gyda'r tîm cyntaf yn chwarae ond dwywaith dros y ddeufis diwetha - ond roedd dwy fuddugoliaeth yn ddigon i gadw Cymric ar frig tabl Ail Adran Cynghrair Amatur De Cymru.

Yn gyntaf ym mis Rhagfyr cafwyd buddugoliaeth arbennig 2-0 yn y mwd a'r glaw oddi cartref ym Mlaenrhondda. Roedd y tîm cartref yn brwydro am bopeth, ond dwy gôl yn hwyr yn y gêm yn cipio'r triphwynt – y gôl gyntaf gan y chwaraewr canol cae, Steve Cope, a'r ail gan seren y gêm, y blaenwr ifanc deunaw oed, Gethin Long.

Wedi'r Nadolig curwyd Ferndale 5-2 mewn gêm gartref yn Nghwrt-yr-Ala, Trelái – y goliau yn dod gan Steve Cope (2), Llŷr Roberts, Osian Lloyd a Tom Pritchard. Uchafbwynt y gêm oedd gôl Llŷr Roberts, a sgoriodd o'r llinell hanner wedi i golwr Ferndale ddod allan o'i gwrt i glirio.



*Ymosodwr Cymric Osian Lloyd, yn paratoi i saethu yn erbyn Ferndale*



*Llŷr Roberts yn gwarchod y bêl yn erbyn Ferndale*

Dim ond un gêm a gafwyd i'r ail dîm, sef gêm gyfartal 1-1 ar ddechrau mis Rhagfyr yn erbyn y tîm ar frig y tabl sef Grange Albion. Pwynt gwerthfawr i dîm Mei Tomos, sydd wedi cyrraedd y Nadolig yn ddiguro ym mhob cystadleuaeth – camp arbennig, ac mae'n amser hir iawn ers i ail dîm Cymric fod mewn sefyllfa mor gryf.

Mae digon i edrych ymlaen ato yn y misoedd nesa, ac mae croeso mawr i unrhyw gefnogwyr ddod i wylio'r ddau dîm, wrth iddynt geisio dod â llwyddiant i glwb pêl-droed siaradwyr Cymraeg Caerdydd. I weld rhestr gemau'r ddau dîm, ewch i'r wefan sef www.clwbcymric.com neu anfonwch ebost i clwbcymric@hotmail.com

# Gemau Caled CRCC

**Clwb Rygbi Cymry Caerdydd 13 – 18 Y Barri**
**Clwb Rygbi Cymry Caerdydd 2XV 5 – 13 Cwins Caerdydd 2XV**

Ar brynhawn oer 12 Ionawr croesawyd Y Barri a Cwins Caerdydd i Gaeau Llandaf am gemau cynghrair. Gwelwyd dwy gêm gystadleuol a safon i'w ganmol o ystyried cyflwr mwdlyd y meysydd.

Sgoriodd yr asgellwr Llŷr Roberts ei gais cyntaf i'r Clwb yn dilyn cyd-chwarae da rhwng y blaenwyr a'r olwyr, ond aeth y Barri ar y blaen gyda dau gais da iawn yn yr hanner cyntaf. Aethant ymhellach ar y blaen gyda thrydydd cais ym munudau agoriadol yr ail hanner cyn i'w blaenwyr ddechrau blino yn y chwarter olaf. Sgoriodd y prop Hywel Jones ail gais y Clwb rhyw ddeg munud o'r diwedd i sicrhau diweddglo cyffrous. Cafwyd ambell gyfle i gipio cais arall a'r cyfle i ennill y gêm ond roedd trafod y bêl yn anodd iawn erbyn hyn a daeth y chwiban olaf yn rhy gynnar tro yma.

Colli hefyd oedd hanes yr 2il Dîm mewn gêm arall lle nad oedd y canlyniad yn sicr tan y funud olaf. Sgoriodd y blaen asgellwr Sam Rogers gais y Clwb ond roeddent ar ei hôl hi o 6 phwynt i 5 trwy gydol yr ail hanner. Gwelwyd sawl cyfle i gipio'r sgôr oedd angen yn diflannu gyda chamgymeriadau bach, a sgoriodd y Cwins y cais i sicrhau buddugoliaeth yn symudiad ola'r gêm.



*Deian Thomas, mewnwr y Clwb, yn mynd am y bwlch!*

LLYFRAU LLAFAR CYMRU

www.llyfraullafarcymru.org

DYMA WASANAETH GWIRFODDOL SY'N RHOI CYFLE I DDEILLION A'R RHAI SY'N CAEL TRAFFERTH I DDARLLEN PRINT GLYWED LLYFRAU CYMRAEG A SAESNEG AM GYMRU AR CD NEU GASET.

Mae na gannoedd a allai fod yn mwynhau ein "llyfrau", "cylchgronau" a "phapurau bro".

Os gwyddoch am unrhyw un - ffoniwch 01267238225

Siarad Cyfrolau

Noddwyd yr hysbyseb hon gan Gronfa Ray Gravel

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED